



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Hydref 2013

BIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a gosodir ef gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i mae darpariaethau Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), a gyflwynwyd i mi ar 14 Hydref 2013, yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Alun Davies AC

Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

14 Hydref 2013

Cynnwys

RHAN 1

1. Disgrifiad	4
2. Y Cefndir Deddfwriaethol	4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith arfaethedig	9
4. Ymgynghori	15
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	19

RHAN 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau	19
7. Costau a manteision	23
8. Asesu Effeithiau Penodol	31
9. Asesu Cystadleuaeth	35
10. Adolygu ar ôl gweithredu	36

ATODIAD 1 – NODIADAU ESBONIADOL AR FIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU)

1. Disgrifiad

1. Mae Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (“y Bil”) yn rhoi effaith i benderfyniad Llywodraeth Cymru i ryddhau Cymru o achosion ar raddfa fawr o bori ceffylau yn anghyfreithlon ac o adael ceffylau yn ddiymgeledd.
- 2 “Pori anghyfreithlon a gadael yn ddiymgeledd” yw’r term a ddefnyddir i ddisgrifio arferion anghyfrifol rhai perchnogion ceffylau (neu bersonau sydd â chyfrifoldeb am geffylau), o adael ceffylau, yn fwriadol neu drwy esgeulustod, i bori ar dir heb ganiatâd perchennog y tir, neu pan fo caniatâd wedi ei dynnu’n ôl, a pherchennog y ceffylau wedyn yn gwrthod symud ei anifeiliaid; neu pan fo ceffyl wedi ei adael i gymryd ei siawns heb ofal nac ymgeledd gan y perchennog neu’r person sydd â chyfrifoldeb amdano. Mewn rhai achosion, mae’r anifeiliaid a borir felly, ac nad oes modd adnabod eu perchnogion, wedi eu gadael ar y tir yn llechwraidd, ac ar ôl dihysbyddu’r borfa yn cael eu symud ymaith mor sydyn ag y daethant, gan adael perchennog y tir i wynebu’r gost sylweddol o unioni’r difrod a achoswyd. Mewn achosion eraill, ar ôl dihysbyddu hynny o borthiant sydd wrth law, gadewir y ceffylau i gymryd eu siawns neu drengi, heb fwyd, dŵr na chysgod.
- 3 Mae’r Bil yn cynnig ateb ar gyfer Cymru gyfan, a fydd yn galluogi pob awdurdod lleol i ymateb mewn ffordd gyson i ddileu’r effeithiau a’r niwsans a achosir gan bori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod yn ddiymgeledd, i dirfeddianwyr, y diwydiant amaethyddol a chymunedau ledled Cymru. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol ymafael mewn ceffylau sydd mewn unrhyw fan cyhoeddus neu unrhyw dir arall yn ardal yr awdurdod lleol heb awdurdod cyfreithlon, eu corlannu, eu gwerthu a'u gwaredu. At ddibenion y Memorandwm Esboniadol hwn, mae “ceffyl” yn cynnwys merlyn, asyn, mul neu fastard mul neu unrhyw anifail ceffylaidd arall.

2. Y Cefndir Deddfwriaethol

- 4 Mae cymhwysedd deddfwriaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud y darpariaethau ym Mil Rheoli Ceffylau (Cymru) o dan adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“DLIC 2006”) a Rhan 1 o Atodlen 7 i’r Ddeddf honno. Mae darpariaeth yn dod o fewn adran 108 (4)(a) os yw’n ymwneud ag un neu ragor o’r pynciau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 7 ac os nad yw’n dod o fewn unrhyw un o’r eithriadau a restrir yn y Rhan honno o’r Atodlen.
- 5 Atgynhychir isod y pynciau perthnasol sydd yn Rhan 1 o Atodlen 7 i DLIC 2006:

6 Amgylchedd

Diogelu’r amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsansau a sylweddau peryglus. Atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff. Draenio’r

tir a gwella tir. Cefn gwlad a mannau agored (gan gynnwys dynodi a rheoleiddio ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol). Cadwraeth natur ac ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig . Diogelu cynefinoedd naturiol, amgylchedd arfordirol a morol (gan gynnwys gwely'r môr). Bioamrywiaeth. Organebau a addaswyd yn enetig. Mân-ddaliadau a rhandiroedd. Tir comin. Meysydd trefol a phentrefol. Claddu a chorfflogi, ac eithrio swyddogaethau crwner.

12 Llywodraeth leol

Cyfansoddiad, strwythur ac ardaloedd awdurdodau lleol. Trefniadau etholiadol ar gyfer awdurdodau lleol. Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion. Cyllid llywodraeth leol.

Nid yw "awdurdodau lleol" yn cynnwys awdurdodau heddlu na chomisiynwyr heddlu a throseddu.

Eithriadau -

Etholfraint llywodraeth leol.

Cofrestru a gweinyddu etholiadol.

Cofrestru genedigaethau, priodasau, partneriaethau sifil a marwolaethau. Trwyddedu gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth yn hwyr yn y nos.

Gorchymnion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Pridiannau tir lleol, ac eithrio ffioedd.

Masnachu ar y Sul.

Darparu cyngor a chymorth dramor gan awdurdodau lleol, mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau llywodraeth leol.

1 Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig

Amaethyddiaeth, Garddwriaeth, Coedwigaeth, Pysgodfeydd a physgota. Iechyd a Lles Anifeiliaid, Iechyd Planhigion. Mathau o blanhigion a hadau. Datblygu gwledig.

Yn y rhan hon o'r Atodlen mae "anifail" yn golygu-

(a) pob mamal ac eithrio bodau dynol, a

(b) pob anifail arall nad yw'n famal;

A dylid dehongli ymadroddion cysylltiedig yn unol â hynny.

Eithriadau-

Hela â chŵn.

Rheoleiddio gweithdrefnau gwyddonol neu weithdrefnau arbrofol eraill ar anifeiliaid.

Rheoli mewnfurion ac allforion, a rheoleiddio achosion o symud anifeiliaid, planhigion a phethau eraill, ac eithrio (ond yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wnaed gan neu yn rhinwedd unrhyw Ddeddf Seneddol sy'n ymwneud â rheoli mewnfurion neu allforion)-

(a) symud anifeiliaid, planhigion a phethau eraill sy'n gysylltiedig â hwy i mewn ac allan o Gymru, ac o fewn Cymru, er mwyn diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd neu gydymffurfio â neu weithredu rhwymedigaethau o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin

(b) symud bwyd anifeiliaid, gwrteithiau a phlaladdwyr (neu bethau a gaiff eu trin fel plaladdwyr yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad) i mewn ac allan o Gymru, ac o fewn Cymru, er mwyn diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion neu'r amgylchedd.

Awdurdodiadau ar gyfer meddyginiaethau llawfeddygol a chynnyrch meddyginiaethol.

10 Priffyrdd a thrafnidiaeth

Priffyrdd, gan gynnwys pontydd a thwneli. Gwaith stryd. Rheoli a rheoleiddio traffig. Gwasanaethau a chyfleusterau trafndiaeth.

Eithriadau -

Cofrestru gwasanaethau bysiau lleol, a chymhwyso a gorfodi amodau rheoleiddio traffig mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny.

Gwasanaethau cludo nwyddau ar y ffyrdd, gan gynnwys trwyddedu gweithredwyr cerbydau nwyddau.

Rheoleiddio adeiladwaith a chyfarpar cerbydau modur ac ôl-gerbydau, a rheoleiddio'r defnydd o gerbydau modur ac ôl-gerbydau ar y ffyrdd ac eithrio -

(a) unrhyw reoliad –

(i) sy'n ymwneud â chynlluniau i godi tâl am ddefnyddio neu gadw cerbydau ar gefnffyrdd Cymru ("cynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd"), neu

(ii) sy'n ymwneud â'r disgrifiadau o gerbydau modur ac ôl-gerbydau y gellir eu defnyddio dan drefniadau i unigolion deithio yn ôl ac ymlaen o'r lleoedd lle maent yn cael addysg neu hyfforddiant, oni bai bod y rheoliad yn gosod safonau technegol ar gyfer adeiladwaith neu gyfarpar cerbydau modur neu ôl-gerbydau sy'n wahanol i'r safonau a fyddai'n gymwys iddynt fel arall; a

(b) sy'n rheoleiddio'r defnydd o gerbydau modur ac ôl-gerbydau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Troseddau traffig ffyrdd.

Trwyddedu gyrwyr.

Hyfforddiant gyrru.

Yswirio cerbydau modur.

Oriau gyrwyr

Rheoleiddio traffig ar ffyrdd arbennig, ac eithrio rheoleiddio sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd.

Croesfannau i gerddwyr.

Arwyddion traffig, ac eithrio gosod a chynnal a chadw arwyddion traffig sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar gefnffyrdd.

Terfynau cyflymder.

Gwasanaethau trafndiaeth ffyrdd rhyngwladol ar gyfer teithwyr.

Trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaethau cyhoeddus.

Dogfennau sy'n ymwneud â cherbydau a gyrwyr at ddibenion teithio dramor a cherbydau a gaiff eu cludo dros dro i Gymru gan bobl sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Treth car a chofrestru cerbydau.

Darparu a rheoleiddio gwasanaethau rheilffyrdd, ac eithrio cymorth ariannol-

(a) nad yw'n ymwneud â chludo nwyddau

(b) nad yw'n cael ei wneud mewn perthynas â gorchymyn gweinyddu rheilffyrdd, a

(c) nad yw'n cael ei wneud mewn perthynas â Rheoliad (CE) Rhif 1370/2007 gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wasanaethau trafndiaeth cyhoeddus i deithwyr ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd.

Diogelwch trafndiaeth ac eithrio trefniadau rheoleiddio sy'n ymwneud â chludo oedolion sy'n goruchwyllo pobl sy'n teithio yn ôl ac ymlaen o'r lleoedd lle maent yn cael addysg neu hyfforddiant.

Treftadaeth rheilffyrdd.

Hedfan, trafndiaeth awyr, meysydd awyr ac erodromau, ac eithrio-

(a) cymorth ariannol i ddarparwyr neu ddarparwyr arfaethedig gwasanaethau trafndiaeth awyr neu gyfleusterau neu wasanaethau maes awyr,

(b) strategaethau gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol neu awdurdodau cyhoeddus eraill ynglŷn â darparu gwasanaethau awyr, a

(c) rheoleiddio'r defnydd o gerbydau awyr sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Morgludiant, ac eithrio -

(a) cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau morgludiant i mewn ac allan o Gymru neu o fewn Cymru, a

(b) rheoleiddio'r defnydd o longau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Hawliau a rhyddid mordwyo, ac eithrio rheoleiddio gwaith a all rwystro neu beryglu mordwyaeth.

Safonau technegol a safonau diogelwch llongau.

Harbyrau, dociau, glanfeydd a llithrfeydd ac eithrio -

(a) y rheini a ddefnyddir neu sydd eu hangen yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y diwydiant pysgota, at ddibenion hamdden neu gyfathrebu rhwng lleoedd yng Nghymru (neu ar gyfer dau neu fwy o'r dibenion hyn), a

(b) rheoleiddio at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Cludo nwyddau peryglus (gan gynnwys cludo deunydd ymbelydrol).

Manylebau technegol ar gyfer tanwydd i'w ddefnyddio mewn injans ymloggi mewnol.

- 6 Mae cymhwysedd deddfwriaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i basio Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) o dan y pwnc 'diogelu'r amgylchedd gan gynnwys niwsansau' o dan Bennawd 6 (Amgylchedd), o dan y pwnc 'pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion' o dan Bennawd 12 (Llywodraeth Leol) a'r pynciau 'iechyd a lles anifeiliaid' ac 'amaethyddiaeth' o dan Bennawd 1 (Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig) a'r pwnc 'priffyrdd' o dan Bennawd 10 (Priffyrdd a Thrafnidiaeth). Mae cymhwysedd deddfwriaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r Bil o dan y pynciau hyn. Nid oes yr un o ddarpariaethau'r Bil yn dod o fewn yr un o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i DLIC 2006. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru, nac ychwaith yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu ymaith

(nac yn rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu dynnu ymaith) unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio o ran Cymru. Nid oes yr un o'r darpariaethau'n torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7 – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw eithriad o'r cyfyngiadau hynny yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

3. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

Cefndir

- 7 Mae digwyddiadau o bori anghyfreithlon ar raddfa fawr wedi bod yn achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd, niwsans i gymunedau (ar dir cyhoeddus a phreifat), wedi effeithio ar y diwydiant amaethyddol ac wedi gosod baich ariannol ar y rhai a fu'n delio â'r broblem. Yn 2012 tynnwyd sylw'r Prif Weinidog at y materion yr oedd awdurdodau lleol ledled de Cymru yn dod ar eu traws a'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu wrth geisio delio â phori anghyfreithlon o dan y ddeddfwriaeth bresennol.
- 8 Mae'n anodd amcangyfrif nifer y digwyddiadau o niwsans a achosir yng Nghymru mewn cysylltiad â cheffylau, gan fod adroddiadau am ddigwyddiadau o'r fath yn cyrraedd nifer o wahanol sefydliadau, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol ac elusennau. Mae'n eglur, fodd bynnag, fod yr asiantaethau sy'n delio â'r mater wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mewn rhai achosion, roedd nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ystod 2012 gymaint â 200% yn uwch nag yn yr un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol. Rhoddir rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 2. Mae'r cynnydd hwn yn y niferoedd yn codi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd; yn enwedig o ystyried bod adnoddau'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu dargyfeirio i ymdrin â'r niwsans cyffredinol a achosir gan geffylau, fel yr adroddwyd gan yr asiantaethau hynny yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus.
- 9 Mae problemau gyda phori anghyfreithlon yn arbennig o gyffredin yn ne Cymru ar hyd coridor yr M4, yn enwedig yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Mae tystiolaeth, fodd bynnag, fod y broblem yn cynyddu yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, a chafwyd adroddiadau gan heddluoedd Dyfed Powys a Gwent yn ogystal ag awdurdodau lleol yng nghanolbarth Cymru.
- 10 Mae tair Deddf awdurdod lleol yn gymwys mewn ardaloedd penodol o fewn rhai o'r awdurdodau (gweler paragraffau 23 i 27). Er mwyn datrys y broblem dan sylw, rhaid i awdurdodau eraill, na allant fanteisio ar y Deddfau lleol hynny, ddibynnu ar ddeddfwriaeth bresennol nad oes yr un rhan ohoni'n cynnig ateb effeithiol i'r broblem, ond yn hytrach yn ymdrin â rhan o'r broblem yn unig. O ganlyniad nid yw'n bosibl gorfodi mewn ffordd gyson ledled Cymru. O blith y 22

o awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n amrywio o ran eu pwerau cyfreithiol i fynd i'r afael â'r broblem, mae pob awdurdod unigol hyd yma wedi ymateb ar sail *ad hoc*, gan ddefnyddio pa bynnag ddeddfwriaeth sydd ar gael i'r awdurdod.

- 11 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol i raddau helaeth am orfodi'r ddeddfwriaeth gyfredol bresennol, er bod pwerau hefyd gan yr heddlu mewn perthynas ag achosi rhwystr ar y briffordd ac unrhyw ddifrod troseddol cysylltiedig (e.e. malurio ffensys, etc.). Gall rhai awdurdodau ymateb yn gyflymach na'i gilydd, naill ai oherwydd bod ganddynt fwy o brofiad o ymateb i'r problemau hyn, neu oherwydd bod ganddynt offer mwy effeithlon i ddelio â'r problemau, o gymharu ag awdurdodau eraill.
- 12 Mae'r adborth anffurfiol a gafwyd gan rai awdurdodau lleol yn dynodi bod y ddeddfwriaeth bresennol sydd ar gael iddynt yn annigonol i'w galluogi i fynd i'r afael â'r mater. Y ddau brif ddiffyg yw: (i) mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod enw perchennog y ceffyl yn hysbys cyn y gellir gweithredu, a (ii) nid oes pŵer ar gael i waredu anifeiliaid mewn modd dyngarol, ac eithrio i'r awdurdodau hynny sydd o fewn cwrpas y Deddfau Lleol ar gyfer Caerdydd, Morgannwg Ganol a Gorllewin Morgannwg a ddisgrifir ym mharagraffau 23 i 27.
- 13 Nid oes un dull o weithredu ar gyfer Cymru gyfan, er bod yr awdurdodau lleol a'r heddlu yn cydnabod yn gyffredinol bod angen dull unffurf er mwyn datrys y broblem. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, felly, mai'r ffordd orau o gyrraedd y nod hwnnw fyddai sefydlu dull gweithredu cyson ledled Cymru.

Y sefyllfa ddeddfwriaethol gyfredol

- 14 Wrth ddatblygu Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) gwnaed dadansoddiad o'r ddeddfwriaeth bresennol, fel a nodir isod.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

- 15 Mae adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ('Deddf 2006') yn gosod dyletswydd ar berson sy'n gyfrifol am anifail i ddiogelu lles yr anifail. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r ddyletswydd hon, a gallant ofyn am sancsiynau troseddol. Cyn y gallant weithredu, fodd bynnag, mae'n ofynnol bod enw'r person sy'n gyfrifol am yr anifail yn hysbys. Yn aml iawn, mae'n anodd profi perchnogaeth y ceffylau a ganfyddir yn pori'n anghyfreithlon, ac o ganlyniad mae'n anodd i'r awdurdod lleol ddwyn achos.
- 16 Mae adran 3 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar berchennog anifail neu berson sydd â 'chyfrifoldeb' am yr anifail, nid y perchennog o anghenraid, i ddiogelu lles yr anifail.
- 17 Pan fo enw'r perchennog neu'r person â chyfrifoldeb yn hysbys, gellir dwyn achos troseddol, ond gall erlyniad o'r fath fod yn gostus a chymryd amser maith, a byddai tystiolaeth o safon uchel yn ofynnol er mwyn profi'r achos y tu hwnt i amheuaeth resymol.

- 18 Yn dilyn colfarn am drosedd o dan y Ddeddf, gall y llys wneud gorchymyn sy'n anghymhwyso'r troseddwr rhag cadw anifail. Yn dilyn colfarn ac anghymhwysiad o'r fath, mae adran 35 yn rhoi pŵer i awdurdod lleol ymafael mewn unrhyw anifail a oedd gynt ym meddiant y person a anghymhwyswyd. Mae adran 37 yn darparu pŵer i ddifa'r anifail hwnnw os yw hynny er lles gorau'r anifail, ond ni cheir ei ddifa felly ac eithrio drwy orchymyn llys. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau eraill sy'n caniatáu difa er lles yr anifeiliaid (adrannau 18(3) a (4), 20(1)(e) a 33).
- 19 Er bod modd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 12 o Ddeddf 2006, rhaid i reoliadau o'r fath fod at y diben o hyrwyddo lles anifeiliaid y mae person yn gyfrifol amdanynt. Yn benodol, gellir pennu gofynion at y diben o sicrhau bod anghenion yr anifeiliaid yn cael eu bodloni, hwyluso neu wella'r cydgysylltu pan fo gwahanol bersonau'n cyflawni swyddogaethau ynglŷn â lles anifeiliaid, ac ar gyfer sefydlu un neu ragor o gyrff i gyflawni swyddogaethau cynghori ynglŷn â lles anifeiliaid. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn gyfyngedig, felly, i ystyriaethau lles anifeiliaid, ac yn hepgor y mater ehangach o niwsans. Mae'n annigonol, felly, ar gyfer cyflwyno pwerau a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblem pori anghyfreithlon.

Deddf Anifeiliaid 1971

- 20 Mae adran 7 o Ddeddf Anifeiliaid 1971 ('Deddf 1971') yn darparu, pan fo da byw (sy'n cynnwys ceffylau) yn crwydro i unrhyw dir ac nad yw'r da byw hynny wedyn o dan reolaeth unrhyw berson, y caiff meddiannydd y tir gadw'r da byw yn gaeth, ar yr amod bod y meddiannydd yn hysbysu'r Heddlu, a pherchennog yr anifail os yw'n hysbys, ar ddiwedd cyfnod o 48 awr. Unwaith y bydd yr anifail wedi ei gadw am o leiaf 14 diwrnod, caiff y person sy'n ei gadw ei werthu mewn marchnad neu ocsiwn, os nad oes achos yn yr arfaeth ynglŷn â dychwelyd yr anifail neu hawliad am iawndal.
- 21 Mae darpariaethau'r Ddeddf hon wedi eu defnyddio gan nifer o awdurdodau lleol sydd wedi corlannu ceffylau, darparu pasbortau iddynt a'u microsglodwynnu cyn eu gwerthu mewn ocsiynau neu farchnadoedd. Canfuwyd, fodd bynnag, fod ceffylau a werthwyd o dan Ddeddf 1971 yn cael eu prynu'n ôl yn aml gan y perchennog gwreiddiol am bris dibwys o isel i'r perchennog hwnnw, ac yna'n cael eu rhyddhau drachefn i bori'n anghyfreithlon mewn rhannau eraill o Gymru ac felly'n bytholi'r broblem.

Deddfwriaeth arall

- 22 O dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009, Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mae'n ofynnol bod enw perchennog ceffyl yn hysbys cyn y gellir cychwyn unrhyw achos, ac felly ychydig o gymorth sydd i'w gael gan y deddfiadau hyn ar gyfer datrys y brif broblem gron (a ddisgrifir yn y paragraff uchod), sef y niwsans a achosir gan bori anghyfreithlon.

Deddfau lleol

- 23 Nodwyd tair Deddf leol sy'n cynnwys pwerau cyfreithiol i awdurdodau lleol penodol ymafael mewn anifeiliaid crwydr a ganfyddir ar dir yn eu hardaloedd, eu corlannu, eu gwaredu a'u difa mewn modd dyngarol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu cynnwys yn Neddf Morgannwg Ganol 1987, Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 a Deddf Gorllewin Morgannwg 1987:

Crynodeb o'r darpariaethau a gynhwysir yn adran 15 o Ddeddf Morgannwg Ganol 1987 mewn perthynas ag ymafael mewn anifeiliaid crwydr

Caiff y Cyngor Dosbarth ymafael mewn, a chorlannu, unrhyw anifail crwydr (gan gynnwys ceffylau) sydd ar dir yn y dosbarth, naill ai (a) pan fo'r tir yn eiddo i'r dosbarth ei hunan, neu (b) ar gais meddiannydd y tir, neu (c) gyda chydsyniad meddiannydd y tir.

Rhaid i'r Cyngor Dosbarth, o fewn 24 awr ar ôl corlannu unrhyw anifail, hysbysu'r heddlu, a pherchennog yr anifail os yw'n hysbys pwy ydyw, ynghylch y corlannu. Rhaid i'r Cyngor hefyd gadw cofrestr o'r anifeiliaid yr ymafaelir ynddynt, a chynnwys ynddi ddatganiad pa un a gafodd yr anifail ei werthu, ei ddifa neu ei waredu rywfodd arall; a rhaid rhoi'r gofrestr honno ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Ymhen 7 diwrnod clir ar ôl dyddiad corlannu'r anifail, os na fydd perchennog yr anifail wedi ei hawlio ac wedi talu'r holl dreuliau a dynnwyd wrth ymafael yn yr anifail, ei gorlannu a'i gynnal, caiff y Cyngor Dosbarth werthu'r anifail neu'i waredu rywfodd arall, ond ni chaiff ddifa'r anifail.

Ymhen 14 diwrnod clir ar ôl dyddiad corlannu'r anifail, os na fydd perchennog yr anifail wedi ei hawlio ac wedi talu ei dreuliau, caiff y Cyngor Dosbarth ddifa'r anifail mewn ffordd a fydd yn achosi cyn lleied o boen a thrallod iddo ag y bo modd.

Caiff y Cyngor Dosbarth adennill costau gan berchennog yr anifail. Rhaid i unrhyw elw a wneir o waredu'r anifail gan y Cyngor Dosbarth gael ei dalu i berchennog yr anifail.

- 24 Mae adran 29 o Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 ac adran 35 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 yn cynnwys darpariaethau cyffelyb i ddarpariaethau adran 15 o Ddeddf Morgannwg Ganol 1987, a nodir uchod.

- 25 Mae Deddf Morgannwg Ganol 1987 yn orfodadwy yn yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol:

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Rhondda Cynon Taf
- Merthyr Tudful

- Caerdydd (mewn perthynas â Phentyrch yn unig)
- Caerffili (mewn perthynas â Chwm Rhymni yn unig)
- Bro Morgannwg (mewn perthynas â'r Wig, Ewenni a Llansanffraid)

- 26 Mae Deddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 yn orfodadwy yn ardal awdurdod lleol Caerdydd (ac eithrio Pentyrch).
- 27 Mae Deddf Gorllewin Morgannwg 1987 yn orfodadwy yn ardaloedd awdurdod lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Crynodeb o'r Deddfau Lleol

- 28 Nid yw'r Deddfau lleol yn cwmpasu'r cyfan o Gymru, ac o ganlyniad gadewir ni gyda chlytwaith cymhleth o ddarpariaethau deddfwriaethol, sy'n ein rhwystro rhag mynd i'r afael yn effeithiol â phroblem y niwsans a achosir gan bori anghyfreithlon, ar sail Cymru gyfan.
- 29 Mantais y darpariaethau yn y Deddfau hyn yw nad ydynt yn gwneud yn ofynnol bod enw'r perchennog yn hysbys cyn y gellir cymryd camau cyfreithiol i ddelio â niwsans pori anghyfreithlon. Caiff awdurdodau lleol sy'n meddu'r pwerau hyn, unwaith y bydd amodau penodol wedi eu bodloni, ddifa'r ceffylau drwy ddulliau dyngarol. Byddai disgwyl i'r awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i ddod o hyd i'r perchnogion cyn mynd ati i ddifa. Byddai'r gwiriadau a wneid yn cynnwys chwilio am ficrosglodynau neu unrhyw farciau adnabod eraill, gosod hysbysiadau yn rhoi manylion o'r ceffylau yr ymafaelwyd ynddynt, gwneud ymholiadau yn lleol i ganfod a oedd ceffylau ar goll, defnyddio gwybodaeth leol i geisio dod o hyd i berchnogion posibl a hysbysu asiantaethau eraill megis yr heddlu ac elusennau ynghylch ymafael yn y ceffylau. Yn ychwanegol, dylai'r unigolion sy'n ymafael mewn ceffylau edrych am arwyddion amlwg o dderbyn gofal diweddar, h.y. pedoli; tocio'r mwng, y cynffon a'r gwefl-flew. Mae'r rhain i gyd yn arwyddion (ond nid o anghenraid yn profi) y gallai fod gan y ceffyl berchennog diwyd, mai wedi dianc y mae'r anifail a bod ei berchennog hwyrach yn chwilio amdano.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

- 30 Mae adran 1 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ('Deddf 1998') yn darparu y caiff yr awdurdod perthnasol, sy'n cynnwys awdurdod lleol, wneud cais i Lys Ynadon am Orchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (GYG) i'r perwyl bod y person sy'n destun y gorchymyn yn gwneud, neu'n ymatal rhag gwneud, yr hyn a bennir yn y Gorchymyn. Os ceir GYG o'r fath, mae ei effaith yn parhau am o leiaf 2 flynedd, ac os torrir y gorchymyn yn ystod oes y gorchymyn, gellir erlyn y person hwnnw sy'n destun y gorchymyn.
- 31 Mae'r adborth a gafwyd gan yr heddlu a rhai awdurdodau lleol yn dynodi eu bod wedi llwyddo i gael GYGion yn erbyn personau yr oedd modd eu hadnabod a'u cysylltu â pherchnogaeth ceffylau a ganfuwyd yn achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon.

- 32 Y prif anawsterau ynglŷn â'r pwerau sydd ar gael o dan adran 1 o Ddeddf 1998, fel mecanwaith i atal pori anghyfreithlon, yw (i) bod rhaid i enw perchennog y ceffylau sy'n achosi'r niwsans fod yn hysbys i'r awdurdod sy'n erlyn; (ii) ateb byrdymor i'r broblem yn unig a geir o ganlyniad i GYG, oherwydd nad oes modd adnabod perchnogion cynifer o'r ceffylau; a (iii) bod sicrhau GYG yn broses sy'n defnyddio llawer o adnoddau yn nhermau arian, amser, gwaith cydgysylltu rhwng yr awdurdodau perthnasol, y baich tystiolaeth a'r wylriadwriaeth gyson sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y person a enwir yn cydymffurfio â thelerau'r gorchymyn.

Amcanion y Bil

- 33 Prif amcan polisi Llywodraeth Cymru yw gweithio tuag at sefydlu Cymru sy'n rhydd o bori anghyfreithlon.
- 34 Byddai'r Bil yn darparu'r un pwerau i bob awdurdod lleol yng Nghymru, i ymafael mewn ceffylau, eu corlannu, eu gwerthu, eu gwaredu a'u difa mewn modd dyngarol ar ôl rhoi hysbysiadau penodol ac o fewn terfynau amser penodol pan ganfyddir ceffylau'n achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon o fewn ardal yr awdurdod lleol.
- 35 Effaith y Bil yw darparu i'r holl awdurdodau lleol y pwerau angenrheidiol i ymafael mewn ceffylau, eu corlannu a'u gwaredu neu'u difa, fel y gall yr awdurdodau gydweithio i amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd rhag y niwsans a achosir gan yr arferiad o adael ceffylau'n ddiymgeledd/pori anghyfreithlon.
- 36 Cyflawnir yr amcanion polisi drwy roi pwerau i awdurdodau lleol weithredu pan gânt eu hysbysu bod ceffylau'n pori ar dir yn eu hardal heb awdurdod cyfreithlon. Bydd awdurdodau lleol yn gallu ymafael yn y ceffylau hynny a'u corlannu. Ar ôl saith diwrnod, yn dechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd yr Hysbysiad, os na fydd perchennog y ceffyl neu berson sy'n gweithredu ar ran y perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol neu os yw'r perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ond heb dalu'r costau yr aeth yr awdurdod lleol iddynt yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gorlannu, gall yr awdurdod lleol waredu'r ceffylau a ymafaelwyd (gan gynnwys drwy eu difa heb greulondeb).
- 37 Ym marn Llywodraeth Cymru, bydd y pwerau arfaethedig hefyd yn cynnig ateb i broblem y ceffylau, yr ymafaelwyd ynddynt ac nad oedd modd adnabod eu perchnogion, a werthir ac a brynir ôl am brisiau dibwys o isel gan rai y tybir eu bod yn berchnogion gwreiddiol y ceffylau, ac a ganfyddir wedyn yn pori'n anghyfreithlon drachefn, gan achosi niwsans i gymunedau yng Nghymru. Mater i awdurdodau lleol fyddai penderfynu ar y ffordd orau i weithredu. Yn achos nifer fach o'r ceffylau, dichon y tybir mai'u gwerthu mewn ocsiwn fyddai fwyaf priodol er mwyn adennill rhywfaint o'r treuliau. Mae'n bosibl y gall elusennau sy'n gweithredu er lles ceffylau dderbyn, adsefydlu ac ailgartrefu rhai ohonynt. Fodd bynnag, yn achos nifer fawr o geffylau o werth economaidd isel, nas hawliwyd ac na ellir eu hadnabod, hwyrach y bydd awdurdodau lleol o'r farn mai'u difa mewn ffordd ddyngarol yw'r opsiwn priodol.

Ar bwy y bydd y Bil yn effeithio?

- 38 Bydd y Bil hwn yn effeithio ar berchnogion a cheidwaid anghyfrifol ceffylau, sy'n caniatáu i'w hanifeiliaid bori'n anghyfreithlon neu'n eu gadael yn ddiymgeledd, heb unrhyw fwriad o gyflawni eu dyletswydd o ofalu amdanynt. Bydd perchnogion neu geidwaid o'r fath, sy'n anwybyddu effaith pori anghyfreithlon ar yr amgylchedd, ar eiddo ac ar gymunedau, ac yn gwrthod cymryd o ddifrif eu cyfrifoldeb am les ac ansawdd bywyd eu ceffylau, yn wynebu symud ymaith, ailgartrefu neu ddifa'r ceffylau sy'n adawedig neu'n pori'n anghyfreithlon.
- 39 Bydd awdurdodau lleol yn cael pwerau i ymfael mewn ceffylau sydd ar dir yn eu hardal heb awdurdod cyfreithlon, eu corlannu, eu gwerthu, eu gwaredu neu'u difa, a thrwy hynny gael gwared ar geffylau sy'n achosi niwsans i gymunedau ac i'r amgylchedd.
- 40 Bydd tirfeddianwyr, y bu ceffylau'n pori eu tir yn anghyfreithlon heb eu caniatâd, neu y gadawyd ceffylau yn ddiymgeledd ar eu tir, yn enwedig pan fo perchnogaeth y ceffylau'n anodd i'w phrofi, yn cael budd o'r pwerau a roddir i awdurdodau lleol yn y Bil hwn.
- 41 Mae sefydliadau lles anifeiliaid ac elusennau ceffylau hefyd wedi croesawu'r ddeddfwriaeth newydd, oherwydd bod eu hadnoddau a'r lleoedd yn eu canolfannau achub yn brin, gallant weld y manteision o sefydlu dull gweithredu ar gyfer Cymru gyfan yn y mater hwn, a bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu'n gyflymach nag y gallant ar hyn o bryd. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyrff megis RSPCA, y Groes Las, World Horse Welfare a Redwings wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y ceffylau y mae angen eu hailgartrefu.

Cynllun gweithredu a chyflawni manwl

Amserlen

- 42 Bwriedir i'r Bil gychwyn pan gaiff y Cydsyniad Brenhinol (y disgwylir ei gael yn gynnar yn 2014).
- 43 Datblygir canllawiau anstatudol ar y cyd â'r awdurdodau a dyroddir y canllawiau hynny yr un pryd ag y daw'r Bil i rym. Bydd y canllawiau yn cynnwys y broses a'r dull yr argymhellir y dylai'r awdurdodau eu dilyn wrth benderfynu a yw perchennog yn debygol o ddod ymlaen i hawlio ceffyl ai peidio. Y bwriad yw cadw'r canllawiau dan arolwg yn gyson fel y gallant ddatblygu dros amser yng ngoleuni'r profiad o weithredu.

Risgiau/peryglon os na wneir y ddeddfwriaeth

- 44 Os na chaiff y Bil ei basio a chael y Cydsyniad Brenhinol, bydd pori anghyfreithlon a cheffylau gadawedig yn parhau'n broblem ac yn niwsans i'r cyhoedd, i awdurdodau lleol ac i'r gwasanaethau brys yng Nghymru.

- 45 Mewn rhai mannau yng Nghymru mae problem pori anghyfreithlon bellach yn achosi risg i iechyd y cyhoedd, wrth i geffylau grwydro i'r ffyrdd cyhoeddus neu fynd i mewn ar eiddo preswyl. Mae hyn yn ychwanegol at y problemau a wynebir gan dirfeddianwyr pan fo ceffylau'n ymddangos ar eu tir heb ganiatâd, a hwyrach yn achosi difrod i'w heiddo. Effeithir hefyd ar y diwydiant amaethyddol, pan ddifrodir tir a ffensys, a gadael tîrfeddianwyr yn brin o borthiant ar gyfer eu stoc eu hunain.
- 46 Yn olaf, gosodir baich ariannol sylweddol ar y rhai sy'n delio â'r broblem. Amcangyfrifir bod y gost i'r awdurdodau gorfodi (y gwasanaeth heddlu, awdurdodau lleol, RSPCA a'r gwasanaeth tân) ers Tachwedd 2011 oddeutu £1.2 miliwn. Nid yw sefyllfa o'r fath yn gynaliadwy.

4. Ymgynghori

Ymgynghori ar gynigion ar gyfer Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

- 47 Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol yng Ngorffennaf 2011, ymrwymodd y Prif Weinidog i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrion â'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y mater o bori anghyfreithlon o 4 Mawrth 2013 tan 29 Ebrill 2013. Gwahoddwyd safbwyntiau ynglŷn â phori anghyfreithlon a gadael yn ddiymgeledd. Gofynnwyd hefyd am safbwyntiau ar gynnwys posibl Bil a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hynny. Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori i randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, yr Heddluoedd yng Nghymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Tîrfeddianwyr, Ffermwyr, yr Undebau Amaethyddol, Cominwyr, Elusennau Lles Ceffylau, Sefydliadau sy'n Dyroddi Pasbortau, perchnogion /ceidwaid ceffylau a'r Gymuned Sipsiwn/Teithwyr.
- 48 Dychwelwyd cyfanswm o 602 o ymatebion. Roedd 77 o'r ymatebion ar y ffurflen ateb swyddogol a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru; roedd 505 yn ymatebion generig y tybiwyd eu bod wedi eu dosbarthu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. O blith y 505 hyn, canfuwyd bod 60 yn tarddu o wledydd y tu allan i'r DU heb unrhyw fuddiant uniongyrchol yn y mater, ac fel y cyfryw hepgorwyd hwy o'r dadansoddiad. Cafwyd 20 o ymatebion pellach, naill ai ar ffurf llythyrau unigol neu wedi eu cynnwys fel gwybodaeth neu awgrymiadau ychwanegol yn rhan o'r ymatebion generig.
- 49 Dadansoddwyd ac ystyriwyd yr ymatebion yn rhan o'r broses o benderfynu pa fesurau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â phori anghyfreithlon ledled Cymru. Dangosir dadansoddiad o'r ymatebwyr yn Nhabl 1.

Tabl 1: Ymatebion a gafwyd fesul sector

Sector	Nifer yr ymatebion	Canran o gyfanswm yr ymatebwyr o bob sector
Aelodau'r cyhoedd	500	92%
Llywodraeth Leol	13	2%

Gwasanaethau Brys	3	1%
Elusennau Lles	10	2%
Cyrff Ceffylaidd Eraill	6	1%
Sefydliadau eraill sydd â buddiant	7	1%
Undebau Amaethyddol	3	1%
Cyfanswm	542 *	100%

* Hefgorwyd y 60 ymateb y canfuwyd eu bod yn tarddu o'r tu allan i'r DU.

Crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad

- 50 Roedd ymatebwyr yn nodi mai lleiafrif o unigolion sy'n achosi'r problemau. Roedd nifer o themâu yn ailgodi droeon ymhlith yr ymatebion, ynglŷn ag adnabyddiaeth (cysylltu ceffylau â pherchnogion), bridio a masnachu anghyfrifol. Beirniadwyd y fframwaith deddfwriaethol cyfredol am fethu ag ymdrin yn effeithiol â phori anghyfreithlon a gadael yn ddiymgeledd, ac aed ymlaen i alw am fframwaith cyfreithiol cyson drwy Gymru gyfan i fynd i'r afael â'r broblem.
- 51 Cafwyd 445 o atebion generig (y tybiwyd iddynt ddod drwy'r cyfryngau cymdeithasol), a oedd yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a wnaed gan y rhai a atebodd y cwestiynau unigol, gan gynnwys yr angen i wella'r gallu i olrhain ac adnabod, ac estyn darpariaethau'r Deddfau Lleol i gwmpasu Cymru gyfan. Galwyd hefyd am orfodi cryfach a mwy cyson, gydag adnoddau neilltuedig i'r awdurdodau lleol a mecanwaith ar gyfer rhannu'r arferion gorau.
- 52 Ymhlith yr ymatebion roedd cefnogaeth i'r awgrym o atgyfodi'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol a darpariaeth ar gyfer un gronfa ddata ganolog a fyddai'n cofnodi pasbortau ceffylau a newidiadau perchnogaeth (system debyg i'r un a weithredir gan y DVLA ar gyfer cerbydau modur) ynghyd â diwygio'r rheoliadau pasbortau ceffylau er mwyn microsglodynnu pob ceffyl, beth bynnag fo'i oedran.
- 53 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau a chynlluniau wrth gefn ar gyfer rhai yr effeithir arnynt gan bori anghyfreithlon, yn ogystal â chanllawiau statudol ac amodau ar gyfer awdurdodau lleol i'w cynorthwyo gyda gorfodi, ac y dylid cefnogi'r mesurau gydag adnoddau digonol.
- 54 Cafwyd 20 o ymatebion pellach a oedd yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a wnaed uchod, ond yn ychwanegol at hynny yn cefnogi hefyd sefydlu fframwaith cyfreithiol syml a chyson i roi sylw i'r mater ledled Cymru. Awgrymwyd bod angen diffinio'r term 'perchennog', sy'n cyfleu mai eiddo y gellir ei drin fel y mynnir yw anifail. Cynigiwyd y byddai 'gofalwr' yn cyfleu disgrifiad mwy addas.

- 55 Roedd y rhai a wnaeth sylwadau ynglŷn ag adnabod o'r farn y dylid ystyried rhewfrandio¹ neu frandio carnau² yn hytrach na microsglodwynnu.
- 56 Thema a glywyd dro ar ôl tro yn yr ymatebion oedd y dylai Llywodraeth Cymru roi sylw i fater y pwerau sydd ar gael, er mwyn canfod ateb deddfwriaethol sy'n gyson ledled Cymru. Cynigiwyd nifer o ddatrysiadau eraill, anneddfwriaethol, yn ogystal; yr awgrymiadau a'r syniadau hynny fydd sail y Cynllun Gweithredu y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn bwriadu ei gyhoeddi yn yr hydref. Bydd y Cynllun Gweithredu hwnnw'n goleuo'r gwaith sydd eisoes ar droed rhwng Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol, yr heddlu a'r elusennau lles.
- 57 Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y gall y cyfreithiau presennol fod yn anogaeth i bori'n anghyfreithlon, gan fod perchnogion ceffylau yn gwybod y cânt o leiaf 14 diwrnod o borthiant am ddim cyn yr ymfaelir yn y ceffylau. Credai'r ymatebwyr fod angen newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu i'r awdurdod statudol priodol ymfael, symud a difa ceffylau ar unwaith pan nad oedd tiffeddianwyr wedi rhoi caniatâd, a chaniatáu gwneud hynny'n ddiennw weithiau, i osgoi unrhyw ymgais i ddial ar yr awdurdod a/neu ei swyddogion.
- 58 Ystyrir hefyd mai difa, bellach, oedd yr unig opsiwn, gan nad oes cartrefi ar gael yn gyffredinol i geffylau yr ymfaelwyd ynddynt; a byddai polisi o ddifa yn dangos yn eglur na fyddid yn goddef yr arferiad o bori anghyfreithlon. Dylid cymhwyso pwerau secwestru i unrhyw geffylau sy'n cael eu hatafaelu a'u difa o ganlyniad i bori anghyfreithlon.
- 59 Paratowyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a chyhoeddwyd ef ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad cryno ar gael yn: <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/fly-grazing-consultation/?skip=1&lang=cy>

¹ Mae rhewfrandio yn ddull ddyngarol a di-boen, a weithredir drwy bwyso marcwyr sydd wedi eu gor-
oeri yn erbyn croen y ceffyl. Mae hyn yn dinistrio'r pigment sy'n rhoi lliw i flew yr anifail. Mae'r blew
wedyn yn aildyfu'n wyn, ac o ganlyniad gellir gweld y brand unigryw.

² Mae brandio carnau yn ddull o frandio gyda haearn poeth, er mwyn gosod pa bynnag wybodaeth y
dymuna'r perchennog, megis cod post, ar garn y ceffyl. Nid yw hwn yn ddull parhaol o frandio. Wrth i'r
carn barhau i dyfu, rhaid ailosod y brand oddeutu unwaith bob chwe mis.

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

60 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl isod yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ym mha ffordd y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a ddilynir (*cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn*), os o gwbl, ynghyd â'r rhesymau pam yr ystyrir ei bod yn briodol;

Adran:	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb ar gyfer pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 7 - Apeliadau	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, os oes angen, i allu nodi mecanwaith ar gyfer rhoi hawl i unrhyw berson apelio mewn cysylltiad â mater o dan y Ddeddf hon gan gynnwys nodi'r rhesymau, gweithdrefnau, amseriad a chostau. Bydd angen adolygu'r weithdrefn a'r costau a'u newid o dro i dro. Bydd is-ddeddf yn addas i'r pwrpas hwn.	Negyddol	Mae'r gweithdrefnau hyn yn debyg o fod yn rhai bach neu dechnegol eu natur, gan roi hyblygrwydd i newid y gyfraith os oes angen.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

- 61 Yn y Bennod hon cyflwynir tri gwahanol opsiwn o ran amcanion polisi'r Bil. Dadansoddir pob un o'r opsiynau, gan ystyried i ba raddau y byddai'n cyrraedd amcanion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r risgiau. Nodir y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn ym Mhennod 8.
- 62 Mae'r costau a'r buddion cysylltiedig wedi eu harchwilio ac yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol. Cyflwynir y costau a'r buddion yn nhermau'r Gwerth Presennol Net (NPV) gan gymhwyso cyfradd ddisgownt o 3.5 y cant. Mae hyn yn unol â'r canllawiau a roddir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.
- 63 Mae'r opsiynau isod yn adlewyrchu'r rhai a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yr opsiynau yw:
- (a) Opsiwn 1 – gwneud dim
 - (b) Opsiwn 2 – cyflwyno canllawiau anstatudol
 - (c) Opsiwn 3 – cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol.

Opsiwn 1 – gwneud dim

- 64 O dan yr opsiwn hwn byddid yn parhau i reoli pori anghyfreithlon a gadael yn ddiymgeledd gan ddefnyddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol, gan gynnwys y Deddfau lleol yn yr ardaloedd lle mae'r Deddfau hynny'n gymwys.
- 65 Anfanteision allweddol yr opsiwn hwn yw'r canlynol—
- (a) Mae'r tair Deddf leol yn gyfyngedig i rannau yn unig o Gymru, tra bo'r broblem yn lledaenu i ardal ehangach.
 - (b) Ar hyn o bryd, Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol yn unig sy'n darparu y caiff awdurdodau lleol adennill eu costau pan lwyddir i adnabod perchnogion ceffylau a fu'n pori'n anghyfreithlon.
 - (c) Ni welid unrhyw welliant o ran y pori anghyfreithlon sy'n digwydd yng Nghymru a byddai'r costau a achosid i awdurdodau lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yn cynyddu wrth i'r sefyllfa ddirywio.
- 66 Byddai'r opsiwn hwn yn bytholi'r risg i ddiogelwch y cyhoedd, y niwsans i gymunedau (ar dir cyhoeddus a phreifat), a'r effaith ar y diwydiant amaethyddol ac yn cynyddu'r baich ariannol ar bawb y mae'n rhaid iddynt ymateb i'r broblem.
- 67 Ym marn Llywodraeth Cymru, ni ellir caniatáu i'r sefyllfa bresennol barhau heb ei newid, ac o ganlyniad, nid yw gwneud dim yn opsiwn dichonadwy.

Opsiwn 2 – cyflwyno canllawiau anstatudol

- 68 O dan yr opsiwn hwn, cynigir y dylid cyflwyno canllawiau anstatudol i annog perchnogion ceffylau i ymddwyn yn gyfrifol.
- 69 Gellir disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o berchnogion ceffylau yn croesawu canllawiau anstatudol ac yn cydymffurfio â chanllawiau o'r fath, ond nid yw'n debygol mai'r perchnogion hynny yw'r perchnogion sydd fel arfer yn achosi'r problemau.
- 70 Gellid dadlau y byddai canllawiau anstatudol yn gwella ychydig ar y sefyllfa, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw canllawiau o'r fath yn debygol o fod yn effeithiol yn erbyn y perchnogion a'r personau â chyfrifoldeb sy'n anodd eu hadnabod ac yn rheolaidd, yn pori cannoedd (os nad miloedd) o'u ceffylau yn anghyfreithlon. Eu hymateb yn syml fyddai anwybyddu'r canllawiau. Yn ychwanegol, mae Cod Ymarfer Er Lles Anifeiliaid Ceffyllaidd (Hydref 2008) eisoes wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r Cod hwnnw'n esbonio wrth berchnogion ceffylau sut y gellir bodloni'r safonau gofal sy'n ofynnol gan y Ddeddf honno. Mae'r codau hyn wedi bod ar gael yn ddi-dâl i aelodau o'r cyhoedd, awdurdodau lleol, elusennau lles, milfeddygon a siopau anifeiliaid anwes. Dywed awdurdodau lleol a'r RSPCA eu bod yn defnyddio wrth ymdrin ag achosion, a'u bod yn cyflwyno copïau yn aml i berchnogion, wrth ymweld ynglŷn â materion lles.

Opsiwn 3 – cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol

- 71 Mae'r opsiwn hyn yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu pwerau cyson ledled Cymru, a fydd yn galluogi'r awdurdodau priodol i ddelio â mater pori anghyfreithlon a gadael ceffylau yn ddiymgeledd. Er y gwelir ceffylau a merlod wedi dianc ar dir heb awdurdod cyfreithlon o bryd i'w gilydd, mae'r Bil wedi ei anelu at berchnogion a cheidwaid anghyfrifol sydd, naill ai'n fwriadol neu drwy esgeulustod, yn caniatáu i'w ceffylau bori'n anghyfreithlon a pheri niwsans neu berygl a difrod i eiddo.
- 72 Byddai canllawiau anstatudol ategol hefyd yn cael eu paratoi i gynghori awdurdodau lleol a phartion â diddordeb ar faterion ymarferol ynglŷn ag arfer y pwerau.
- 73 Bydd yr opsiwn hwn yn darparu dull cyson o weithredu ledled Cymru ac yn sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yr offer perthnasol i ymateb yn effeithiol i'r broblem hon.
- 74 Mae risg y bydd cyflwyno deddfwriaeth newydd yng Nghymru er mwyn i awdurdodau lleol ddelio yn gadarn a chyson â'r mater o bori'n anghyfreithlon a gadael ceffylau'n ddiymgeledd, yn peri adleoli'r broblem dros y ffin i Loegr. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i fesur pa mor debygol yw'r

perygl hwn, a phe bai'n digwydd, ar ba raddfa. Pe bai'r broblem yn symud i Loegr, ni all Llywodraeth Cymru ragdybio sut fyddai awdurdodau lleol Lloegr yn mynd i'r afael â'r broblem nac o dan ba ddarpariaethau deddfwriaethol y byddent yn dewis gweithredu. Nid oes modd meintoli'r costau posibl o ganlyniad i hynny.

7. Costau a buddion

- 75 Mae'r Bennod hon yn ymdrin â chostau a buddion yr opsiynau y manylwyd arnynt ym Mhennod 5.

Costau

Opsiwn 1 – gwneud dim

- 76 Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid, ystyrir y byddai'r costau a achosir gan bori anghyfreithlon, heb ddeddfwriaeth effeithiol yn parhau i esgyn.
- 77 Nid yw costau effeithiau pori anghyfreithlon ar Gymru ar gael yn ganolog ar hyn o bryd. Yn gyfredol, fodd bynnag, mae'r crynodiad pennaf o achosion o bori anghyfreithlon mewn ardal o Dde Cymru, yn enwedig Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe a Bro Morgannwg. Ers Tachwedd 2011 mae Heddlu De Cymru wedi cofnodi dros 1,500 o achosion o geffylau a oedd yn rhydd, wedi eu gadael yn ddiymgeledd neu'n pori'n anghyfreithlon. Dros yr un cyfnod roedd y costau cronedig o ddelio â digwyddiadau mewn perthynas â cheffylau gan yr Heddlu yn Ne a Gorllewin Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a dau awdurdod lleol (sef Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg) oddeutu £1.2 miliwn. Ar ôl delio â'r broblem yn gadarn, sylwyd bod y broblem wedi ei dadleoli'n raddol i ardaloedd eraill; cafwyd adroddiadau o Gasnewydd yn benodol, am dirfeddianwyr y bu ceffylau'n pori ar eu tir yn anghyfreithlon. Ardaloedd eraill o Gymru sydd wedi profi'r broblem yw Sir Fynwy, Torfaen a Gwynedd.
- 78 Yn erbyn y cefndir o gynnydd yn nifer y ceffylau a ail-gartrefir oherwydd pori anghyfreithlon, mae elusennau³ anifeiliaid ar draws Cymru a Lloegr wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd, sef '*Left on the Verge - the approaching equine crisis in England and Wales*'⁴ yn 2012 sy'n amcangyfrif y gallai oddeutu 6,000 o geffylau fod dan risg ledled Cymru a Lloegr. Manylir yn yr adroddiad ar faterion sy'n codi ynglŷn â phori anghyfreithlon a chyfeirir at y nifer cynyddol o geffylau a dderbynnir i ofal yr elusennau bob blwyddyn. Mae cyfleusterau'r cyrff lles yn orlawn, ac nid oes ganddynt le bellach i dderbyn rhagor o geffylau. Ar ben hynny, mae'r costau sy'n gysylltiedig â gofalu am geffylau wedi cynyddu,

³ RSPCA, Blue Cross, Redwings Horse Sanctuary, World Horse Welfare, HorseWorld, British Horse Society

⁴ [Left on the Verge Report](#)

gan ychwanegu at faich yr elusennau a gorfodi llawer ohonynt i wrthod popeth ond yr achosion gwaethaf o esgeuluso. Yn 2011 ail-gartrefwyd 240 o geffylau gan yr RSPCA, sef dwywaith y nifer a ail-gartrefwyd yn 2010. Cynyddodd nifer y ceffylau a ailgartrefwyd gan Redwings o 46 yn 2006 i 109 yn 2011. Adroddodd Blue Cross fod 21% o'r ceffylau a dderbyniwyd i'w canolfannau yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn i Fehefin 2012 wedi eu derbyn am resymau lles, cynnydd o 12% o gymharu â'r un cyfnod yn 2007-2008. Mae costau erlyn mewn achosion ynglŷn â cheffylau hefyd yn codi, yn enwedig mewn achosion ynghylch nifer o geffylau; dywed yr awdurdodau lleol y gall y costau hynny fod cymaint â £500 y diwrnod (gweler paragraff 85).

- 79 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae heddluoedd Cymru wedi ymateb i geisiadau am gymorth oherwydd niferoedd uchel o achosion o geffylau crwydr a cheffylau gadawedig. Bu hyn yn digwydd yn bennaf yn ardaloedd heddlu Gwent, De Cymru a Dyfed Powys, er bod y sefyllfa hon yn effeithio i wahanol raddau ar bob ardal yng Nghymru.
- 80 Rhwng Tachwedd 2011 a Mawrth 2012 cofnodwyd dros 2,000 o ddigwyddiadau yn ne Cymru gan Heddlu De Cymru ac awdurdodau lleol, o geffylau a oedd yn rhydd, gadwedig, neu'n pori'n anghyfreithlon. Mae ceffylau rhydd ar briffyrdd cyhoeddus, gan gynnwys y prif lwybrau prifwythiennol, yn creu perygl enbyd a difrifol i'r cyhoedd ac i'r awdurdodau sydd â'r gwaith o'u symud oddi yno.
- 81 Mae'r effaith ar y gymuned yn sylweddol a pharhaus. Nid yn unig yr effaith amlwg ac uniongyrchol ar rai sy'n ymwneud â'r diwydiant ceffylau, ond hefyd ar aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn bennaf oll, gall ceffylau rhydd beryglu bywydau, difrodi eiddo a pheri anghyfleustra i'r cyhoedd. Gallant hefyd achosi lefelau annerbyniol o ymyrraeth ym mywydau pobl.
- 82 Amharwyd ar y gymuned amaethyddol a chlywyd adroddiadau am ddychryn, bygythiadau a difrod uniongyrchol gyda'r nod o sicrhau na chaiff ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon eu symud oddi ar dir y ffermwyr. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o ffermwyr a gredai eu bod wedi cytuno ar drefniadau anffurfiol, ac wedyn yn canfod nad oedd y ceffylau dan sylw'n cael eu symud ymaith, neu fod ceffylau eraill wedi eu hychwanegu.
- 83 Nid yr unigolion a ymunodd mewn busnes gyda masnachwyr ceffylau adnabyddus yw'r unig rai i ddioddef yn uniongyrchol oherwydd perchnogion anghyfrifol. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, codwyd nifer o bwyntiau gan Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU), a oedd yn tynnu sylw at yr effaith gudd ar y gymuned amaethyddol, o ganlyniad i ddiwydiant ceffylau a reolir yn wael. Mae'r NFU wedi cyhoeddi papur ar y mater (gweler www.nfonline.com).
- 84 Costau i asiantaethau partner a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol isod (Rhagfyr 2011 – Mawrth 2012):

Math o gost	Y Fro	Pen-y-bont ar Ogwr
Costau casglu / cludo ceffylau	£21,225.98	£24,644

Ffioedd milfeddygol	£2,784.95	£8,812
Costau porthiant ceffylau	£1,392.33	£172
Costau cyfarpar ceffylau	£1,700	£963
Costau ynglŷn â lleoliadau / corlannau diogel ar gyfer ceffylau yr ymfaelwyd ynddynt	£11,914.84	£22,360
Costau diogelwch yn y lleoliadau / corlannau uchod	£18,691.09	o leiaf £10,000
Dulliau atal yn y Rhws rhag gadael rhagor o geffylau gan gynnwys aredig, disgio a ffensio	£6350	

- 85 Gan ddefnyddio'r ffigurau uchod, sy'n seiliedig ar wybodaeth gan ddwy asiantaeth bartner, ac y gallent yn hawdd fod yn uwch mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill, roedd y costau i'r ddau awdurdod hyn am gasglu /cludo ceffylau, ffioedd milfeddygol, porthiant ceffylau, cyfarpar, stablu a chostau diogelwch oddeutu £125k mewn perthynas â rhyw 260 o geffylau (tua £500 y ceffyl ar gyfartaledd). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amser swyddogion nac, yn benodol, yr £80k a ddyrannwyd i gyflogi dau warden ceffylau. Mae Abertawe wedi amcangyfrif bod y gost i'r awdurdod hwnnw rhwng £1,000 a £1,500 am bob ceffyl.
- 86 Mae Pen-y-bont ar Ogwr, yn ychwanegol, wedi dyrannu tuag £80k i gyllido dwy swydd warden ceffylau ar sail dros dro; mae'r ffigur hwn yn cynnwys y gost o hurio cerbydau, hurio trelar, cyfarpar ychwanegol a Chyfarpar Diogelu Personol (CDP) yn ogystal â chostau tâl goramser.
- 87 Mae Caerdydd hefyd yn cyflogi warden ceffylau, ond mae awdurdodau eraill yn dibynnu ar eu swyddogion iechyd anifeiliaid i ddelio â materion ynglŷn â cheffylau.
- 88 Cafodd Caerdydd 141 o gwynion yn ystod 2012-13 a dywed y bu'r gost o ymfael mewn ceffylau, eu corlannu a'u gwaredu, yn sylweddol. Er enghraifft, ymfaelwyd mewn 21 o geffylau a oedd yn pori'n anghyfreithlon yn Awst 2013 ac yr oedd costau'r contractwyr am ymfael yn unig yn £1,644 heb gynnwys amser pedwar o swyddogion. Roedd yn ofynnol cadw'r 21 ceffyl hynny wedyn am o leiaf 14 diwrnod ar gost o £228 y diwrnod am bob ceffyl. Weithiau, os yw'r ceffylau mewn cyflwr gwael rhaid ychwanegu ffioedd milfeddyg at y costau hyn. Yn ychwanegol, gan fod y perchnogion yn aml yn ceisio cymryd y ceffylau yn ôl, symudir y ceffylau i wahanol fannau diogel; a gall hynny achosi cost am bob symudiad o rhwng £200 a £1000, sy'n dibynnu ar nifer y ceffylau a symudir.
- 89 Ym mhrofiad Caerdydd, yn anaml iawn y daw'r perchnogion ymlaen i hawlio'r anifeiliaid, gan nad oes gwerth i'r ceffylau, sy'n gwerthu am ychydig bunnoedd yn unig, os o gwbl. Ymdrechir i'w hailgartrefu, ond mae'r broses honno'n cymryd llawer o amser. Os llwyddir i ailgartrefu, microsglodynnir y ceffyl a

rhoddir pasbort iddo (ar gost o tua £50) ac ysbaddir meirch i'w hatal rhag bridio, sy'n costio tua £200 arall. Pan na ellir eu hailgartrefu, mae'r ceffylau'n cael eu difa mewn modd dyngarol ar gost o tua £200 y ceffyl, plws costau cludo etc.

- 90 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi ymateb i nifer o achosion pan adawyd niferoedd bach o geffylau i bori'n anghyfreithlon, gan gynnwys un digwyddiad pan ryddhawyd ceffylau ar y maes glanio ar gyfer hofrenyddion yn Ysbyty Wreccsam Maelor. Mewn digwyddiad arall, gadawyd ceffylau ar dir a oedd yn eiddo i'r awdurdod lleol; crwydrodd y ceffylau oddi yno gan achosi digwyddiad traffig mawr a difrifol a arweiniodd at farwolaeth modurwr. Daliwyd yr awdurdod lleol yn atebol am y digwyddiad hwnnw, gan fod y ceffylau wedi crwydro oddi ar dir yr awdurdod; setlwyd yr achos y tu allan i'r llys, ac nid yw'r gost i'r awdurdod yn hysbys.

Opsiw 2 – cyflwyno canllawiau anstatudol

- 91 O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru'n paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau anstatudol gyda'r nod o annog perchnogion ceffylau a merlod i ymddwyn yn gyfrifol. Achosid cost untro i Lywodraeth Cymru am ddatblygu'r canllawiau ac amcangyfrifir y byddai hynny oddeutu £11,000. Seilir hyn ar y rhagdybiaeth y byddai angen 5% o Swyddog Gweithredol Band 2 ac 20% o Swyddog Rheoli Band 2.

- $SGB2 \times 5\% \times £65,920 = £3,296$
- $SRhB2 \times 20\% \times £38,304 = £7.661$

- 92 Ni ddisgwylir i'r opsiwn hwn wneud llawer o argraff ar y problemau sy'n gysylltiedig â phori anghyfreithlon, gan fod y mwyafrif o berchnogion ceffylau eisoes yn gweithredu'n gyfrifol; ac y mae'r perchnogion hynny nad ydynt yn ymddwyn yn gyfrifol yn annhebygol o ymateb i'r canllawiau drwy newid eu hymddygiad. Fel y cyfryw, nid yw'r opsiwn hwn yn debygol o leihau'r gost a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â phori anghyfreithlon.

Opsiw 3 – cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol

Y gost i awdurdodau lleol

- 93 Byddai'r opsiwn o gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol yn darparu i bob awdurdod lleol yng Nghymru y pŵer i reoli'r broblem o bori anghyfreithlon ac o adael ceffylau yn ddiymgeledd, ac yn cynnwys darpariaeth i adennill costau gan berchnogion y ceffylau os gellir eu hadnabod.
- 94 Mae rhai awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r Deddfau lleol eisoes wedi mabwysiadu'r arfer da o osod Hysbysiadau ar safleoedd lle mae ceffylau wedi'u meddiannu, ac yn cadw cofnod o geffylau sydd wedi'u meddiannu. Ni fydd costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol hyn o ganlyniad i gyflwyno'r Bil.
- 95 Ar gyfer awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn gosod Hysbysiadau a chadw cofnodion, bydd rhywfaint o gostau o ran gosod trefn i gadw cofnodion am y ceffylau sy'n cael eu meddiannu. Amcangyfrifir y byddai hyn tua hanner awr o waith swyddog fesul awdurdod lleol (cyfanswm o tua £500 ar draws Cymru). Amcangyfrifir bod cofnodi manylion pob ceffyl i gydymffurfio gyda'r Bil hefyd rhwng 3 a 5 munud i bob ceffyl (tua £2.50 - £4 y ceffyl). Hefyd bydd costau ychwanegol amser swyddogion i osod Hysbysiadau, ac amcangyfrifir y bydd hyn rhwng 1-2 awr ar gyfartaledd fesul taith (tua £50-£100 fesul digwyddiad).
- 96 Yn ychwanegol at y datrysiad deddfwriaethol ar gyfer Cymru gyfan, amcangyfrifir y bydd cost am sefydlu contract yn ôl y gofyn i letya ceffylau yn ddiogel, a allai olygu cost i Lywodraeth Cymru ac i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o tua £450k ar gyfer sefydlu a chost bosibl o £300k y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd dilynol. Yn dibynnu ar y safle, pe sefydlid cyfleuster cyfan gwbl newydd a fyddai'n bodloni gofynion lles y ceffylau, byddai angen addasu unrhyw adeiladau sy'n bodoli eisoes i letya grwpiau mawr o geffylau hanner gwyllt, yn ogystal â darparu manau ar wahân ar gyfer ynysu neu letya meirch, prynu cyfarpar i drin ceffylau, talu costau staffio a chostau sarn a phorthiant. Cydnabyddir mai yn ystod misoedd y gaeaf, sef cyfnod brig o ran pori anghyfreithlon a gadael yn ddiymgeledd, y byddai angen cyfleuster o'r fath. Gan na ellir amcangyfrif nifer y ceffylau y bydd gofyn i'r awdurdodau ymafael ynddynt, rhaid seilio costau rhedeg cyfleuster o'r fath ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan Ben-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ynghyd â'r ffigurau a ddarparwyd gan Abertawe ynglŷn â nifer y ceffylau a gorlannwyd ganddynt yn ystod 2012 (sef 154) a 2013 (63).
- 97 Mae'n bosibl na fydd angen yr holl gostau hyn, sy'n cynrychioli'r senario gwaethaf, sef delio â channoedd o geffylau a thalu'r holl gostau a nodir uchod, gan gynnwys casglu, eu lletya'n ddiogel, stablu, porthi a gwaredu. Mae gan yr awdurdodau lleol gyfleusterau sy'n bodoli eisoes i gorlannu niferoedd hyd at 100 o geffylau, a byddant yn parhau i ddefnyddio'r cyfleusterau hynny.
- 98 Un o ganlyniadau'r broses gyfredol yw fod llawer o'r ceffylau yr ymafaelir ynddynt yn cael eu prynu'n ôl gan unigolion (yr amheuir mai hwy yw'r perchnogion gwreiddiol) am ffracsiwn o'r hyn a gostiodd i'r awdurdodau am ymafael yn y ceffylau, eu corlannu, gofalu amdanynt yn briodol, rhoi marc adnabod ac yna'u gwerthu. Bydd y gallu i symud ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon allan o'r system yn barhaol yn sicrhau na chânt eu hail brynu a'u pori'n anghyfreithlon drachefn mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Credir

y bydd cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n rhoi opsiwn i ddifa'r ceffylau mewn modd dyngarol yn torri'r cylch hwnnw, ac yn cyfleu neges eglur na ellir elwa drwy bori yn anghyfreithlon.

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 99 Fel yn achos Opsiwn 2, bydd Llywodraeth Cymru'n paratoi canllawiau anstatudol gyda'r nod o annog perchnogion ceffylau a merlod i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Byddai'r gost untro i Lywodraeth Cymru am ddatblygu'r canllawiau oddeutu £11,000, ar sail y ffigurau a amlinellwyd mewn perthynas ag Opsiwn 2.
- 100 Mae Rhan 7 o'r Bil yn rhoi darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi hawl i apelio mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi dan y Bil.
- 101 Bydd penderfyniad ar ffurf y broses apelio sy'n cael ei chyflwyno gan is-ddeddfwriaeth yn digwydd ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus.
- 102 Nid yw ffurf y broses apelio yn hysbys, ond os oes disgwyl i Weinidogion Cymru benderfynu ar yr apeliadau, amcangyfrifir y byddai'r gost i Lywodraeth Cymru tua £60 fesul achos (mae'r gwaith hwn yn cael ei ystyried fel busnes fel arfer i Lywodraeth Cymru, a chost apêl fel arfer yn cael ei amcangyfrif fel 1 Band Gweithredol 2 x 1.5 awr fesul achos, gyda chymorth gweinyddol). Mae'r amcangyfrifon hyn o'r costau wedi'u seilio ar ganran o gostau staff y tîm polisi.

Y gost i berchnogion ceffylau

- 103 Os yw ceffyl ar dir heb awdurdod cyfreithlon, bydd y perchennog yn wynebu'r perygl yr ymafaelir yn y ceffyl, ei gorlannu ac, o bosibl, ei ddifa. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn gallu dwyn achos yn erbyn perchennog ceffyl a adwaenir i adennill unrhyw gostau a ysgwyddir wrth ddelio â cheffylau yr ymafaelir ynddynt a'u corlannu. Felly, nid yw darpariaethau'r Bil yn debygol o osod unrhyw gostau ar y mwyafrif helaeth o berchnogion ceffylau sy'n gofalu am eu ceffylau mewn ffordd gyfrifol ac yn unol â'u dyletswyddau statudol.
- 104 Mae hawl gan awdurdod lleol dan Adran 4 y Bil i adennill costau rhesymol. Gall y perchennog wynebu amrywiol gostau yn dibynnu ar: y trefniadau y mae'r awdurdod lleol wedi'u gosod i reoli'r broblem; hyd y cyfnod y mae'r awdurdod lleol wedi darparu llety i'r ceffyl(au); cyflwr meddygol y ceffyl ac unrhyw driniaeth a ddarparwyd; a lleoliad y cyfleuster (efallai nad yw'n lleol i'r man y daliwyd y ceffyl) a chostau cludiant cysylltiedig. Mae hyn yn golygu y gallai'r costau i'r perchennog amrywio rhwng dim o gwbl pan fo awdurdod lleol yn penderfynu dychwelyd y ceffyl(au) heb hawlio unrhyw arian, hyd at nifer o filoedd o bunnoedd. Gan fod y penderfyniad i adennill costau yn ddewisol, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol, fel corff cyhoeddus, i weithredu'n rhesymol yng ngoleuni ffeithiau bob achos unigol, felly byddai'n rhaid iddo ystyried pa mor rhesymol yw unrhyw hawliad dan sylw. Gallai hyn olygu, er enghraifft, bod awdurdod lleol yn dychwelyd ceffyl i blentyn 16 oed (yr oedran cyfreithiol ieuengaf dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid er mwyn bod yn berchennog cyfreithiol

ar anifail) heb ofyn am adennill costau, yn arbennig lle bo achos gwirioneddol o'r ceffyl yn dianc o'i gae.

- 105 Os oes unrhyw anghytundeb ynghylch costau rhesymol, gellir apelio dan y rheoliadau a wnaed yn adran 7. Amcangyfrifir costau cychwyn apêl fel £10, sef yr amser i ysgrifennu llythyr a'i bostio.

Y buddion

Opsiw 1 – gwneud dim

- 106 Ni ddeuai unrhyw fuddion ychwanegol i berchnogion ceffylau, tirfeddianwyr, awdurdodau lleol, asiantaethau partner eraill na Llywodraeth Cymru o'r opsiwn hwn. Mae nifer y digwyddiadau o bori anghyfreithlon yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nid ydynt yn gynaliadwy. Ystyrir ei bod yn hanfodol canfod ateb addas.

Opsiw 2 – cyflwyno canllawiau anstatudol

- 107 Ystyrir mai'r budd allweddol a ddeuai o'r opsiwn hwn fyddai'r cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o'r canllawiau ymysg perchnogion ceffylau, a ysgogid gan ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd. Heb orfodaeth statudol, fodd bynnag, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai ymwybyddiaeth o'r canllawiau yn ysgogi unrhyw newid sylweddol yn ymddygiad y perchnogion anghyfrifol hynny sy'n achosi'r problemau presennol. Nid yw'n debygol, felly, y bydd yr opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y problemau o bori anghyfreithlon a gadael ceffylau yn ddiymgeledd.

Opsiw 3 – cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol

- 108 Y budd allweddol a ddeuai o'r opsiwn hwn yw y byddai'r Bil yn rhoi'r un pwerau i bob awdurdod lleol yng Nghymru, i ymafael mewn ceffylau, eu corlannu, eu gwerthu, eu gwaredu - gan gynnwys drwy eu difa mewn modd dyngarol - ar ôl rhoi hysbysiadau penodol ac o fewn terfynau amser penodol, pan fyddant ar dir mewn ardal awdurdod lleol heb awdurdod cyfreithlon. Byddai darpariaethau'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd rhag y niwsans achosir gan yr arfer o adael ceffylau yn ddiymgeledd a phori anghyfreithlon.

- 109 Rhagwelir y gallai'r pwerau newydd hyn arwain at ostyngiad yn y gost gyffredinol i awdurdodau lleol, drwy ddarparu i'r awdurdodau yr offer angenrheidiol i weithredu'n gyflym a thrwy hynny arbed costau stablu, yn ogystal â'r atalrym eithaf, sef difa, yn erbyn unrhyw rai sy'n bwriadu pori eu ceffylau yn anghyfreithlon. Mae'r deddfwriaeth hefyd yn cynnig galluogi awdurdodau lleol i adennill costau oddi ar berchnogion a adwaenir.
- 110 Mae'r canlynol yn enghreifftiau diweddar o bori anghyfreithlon y gellid bod wedi eu rhwystro pe bai deddfwriaeth o'r fath mewn grym:
- a. Yn ystod Ionawr 2012, ar dir yr ymddiriedolaeth Coed Cadw yn Monk's Wood ym Mro Morgannwg, gadawyd 35+ o geffylau i bori yn anghyfreithlon gan achosi gwerth dros £5,000 o ddifrod. Roedd y lliidiart ar y fynedfa i'r safle wedi ei difrodi'n ddrwg er mwyn gadael i'r ceffylau fynd i mewn, ac roedd coed a oedd newydd eu plannu wedi eu sarnu a'u difrodi gan y ceffylau. Gellid lleihau'n sylweddol effaith unrhyw ddigwyddiad cyffelyb yn y dyfodol drwy ddefnyddio darpariaethau'r opsiwn hwn.
 - b. Digwyddodd achosion o bori ceffylau yn anghyfreithlon ar safleoedd addysgol, megis un ysgol gyfun, lle'r achosid risg yn rheolaidd i ddiogelwch y disgyblion a'r staff. O ganlyniad, bu'n rhaid codi ffens derfyn gref o amgylch y safle ar gost o £61,000. Achoswyd difrod helaeth i feysydd chwarae'r ysgol, ac effeithiodd hynny yn ei dro ar addysg chwaraeon y disgyblion. Oherwydd y tail ceffyl a adawyd ar y safle ni allai'r disgyblion na'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau cyn bo'r safle wedi ei lanhau'n drylwyr. Byddai'r opsiwn hwn yn lliniaru effaith sefyllfa o'r fath, ac yn adfer y cyfleusterau i'w priod ddefnydd gyda chyn lleied o doriad ag y bo modd.
 - c. Daeth y tîm sy'n monitro Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ar draws enghreifftiau o bori anghyfreithlon ar forfa heli o fewn yr ACA yn ystod haf 2012. Roedd cyflwr y forfa yn y rhannau hynny wedi dirywio, a phystalad a gor-bori gan y ceffylau wedi peri i safleoedd fethu â chyrraedd y statws cadwraeth ffatriol a fynnid (yn enwedig morfa heli Bynea ger Llanelli). O dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt) a'r rheoliadau sy'n trosi, mae'n ofynnol sefydlu mesurau cadwraeth mewn ACAau sy'n cyfateb i'w gofynion ecolegol, a chymryd camau priodol i osgoi dirywiad ac ymyrraeth sylweddol â'r mathau o gynefinoedd a rhywogaethau y dynodwyd yr ACAau ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar eu sail. Roedd yn anodd amcangyfrif cost y difrod hwn ar y pryd, ond mae'n sicr y byddai cael yr opsiwn i ymateb yn gyflym wedi bod o fudd i'r ACA drwy symud y ceffylau ymaith yn ddiymdroi a lleihau'r effaith amgylcheddol.
 - d. Mae ceffylau wedi'u gosod yn ddiawdurdod o bryd i'w gilydd ar nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), yn ne Cymru. Er y gall pori weithiau, pan fo'r ddaear yn ddigon sych, wella

cynefinoedd ar dir sy'n cael ei dan-bori, y broblem allweddol yw diffyg rheolaeth ar yr amseroedd pori; o ganlyniad, gellir ymyrryd ag adar sy'n nythu a difrodi nodweddion pwysig, yn enwedig yn y gaeaf, drwy bystalad a sarnu mewn manau penodol. Y math o gynefin yr effeithir arno amlaf yn ne Cymru yw glaswelltir corsiog maes glo, sydd fel arfer yn sychach yn yr haf nag yn y gaeaf, wrth i lefel y trwythiad ostwng neu godi. Yr hyn a argymhellir ar laswelltir corsiog, felly yw pori yn ysgafn yn ystod yr haf gan geffylau a/neu wartheg; ond gan amlaf, bydd pori tir o'r fath yn y gaeaf yn gwneud difrod. Er bod glaswelltir corsiog yn llesol i fioamrywiaeth mae tir o'r fath yn ymddangos yn anniben ac nid yw'n dir amaethyddol gwerthfawr; o ganlyniad tueddir i'w bori yn anghyfreithlon yn amlach. Yma eto, anodd yw meintoli'r difrod a achosir i'r amgylchedd yn nhermau cost; ond mae'r opsiwn hwn yn darparu dull eglur a chyflym o drin ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon, a thrwy hynny leihau'r effaith amgylcheddol.

- e. Bu Cyngor Bro Morgannwg yn ymwneud â digwyddiad pan adawyd 66 o geffylau (a'u hebolion) yn ddiymgeledd ar dir a oedd yn eiddo i'r Cyngor wrth ymyl maes awyr Caerdydd yn y Rhws. Dilynwyd y drefn briodol o osod hysbysiadau o dan y Ddeddf Anifeiliaid, ond ni ddaeth neb ymlaen i hawlio perchnogaeth o'r anifeiliaid. Yn y cyfamser roedd ceffylau'n dianc i'r briffordd yn rheolaidd, ac ar un achlysur i'r rhedffordd ym maes awyr Caerdydd. Roedd adran Safonau Masnach Bro Morgannwg wedyn o dan rwymedigaeth i ofalu am les y 71 o ebolion cob (gwryw yn bennaf). Y gost i'r awdurdod oherwydd gadael y ceffylau hyn yn ddiymgeledd, gofalu amdanynt a'u symud ymaith oedd £30,000. Nid yw'r ffigur hwnnw'n cynnwys amser sylweddol y swyddogion. Yna, hysbyswyd yr adran Safonau Masnach, gan adran parciau gwledig Cyngor Bro Morgannwg, fod 70 o geffylau eraill yn pori'n anghyfreithlon ym Mharciau Gwledig Cosmeston, ar dir a oedd yn eiddo i'r cyngor. Gosodwyd hysbysiadau Deddf Anifeiliaid unwaith eto; fodd bynnag, ar y 13eg diwrnod, cyn bod perchnogaeth o'r ceffylau'n trosglwyddo i'r cyngor, symudwyd y ceffylau hyn o'r safle yn ystod y nos, gan achosi cryn ddifrod i amgylchedd y parciau. Cyfanswm cost y digwyddiad hwnnw i'r Cyngor oedd £3,500; nid yw'r ffigur hwnnw, eto, yn cynnwys amser y swyddogion. Yn dilyn nifer o gyfarfodydd aml-asiantaethol a fu'n ystyried sut i ymateb mewn argyfwng i'r mater o geffylau crwydr a phori anghyfreithlon, sefydlwyd corlan geffylau gan y Cyngor i alluogi'r awdurdod i symud ceffylau a oedd yn peryglu diogelwch y cyhoedd oddi ar y priffyrdd, a darparu amgylchedd diogel i'r ceffylau yr ymrafaelwyd ynddynt. Defnyddiwyd y gorlan am y tro cyntaf i gynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont gyda'i broblem ynglŷn â cheffylau crwydr. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl darparu gwasanaeth diogelwch 24-awr, cafodd ceffylau eu lladrata o'r gorlan. Cost y gwasanaeth diogelwch hwnnw oedd £2,500 yr wythnos. Tra oedd y gorlan yn gweithredu (sef cyfnod o 2 fis) llwyddodd adran Safonau Masnach Bro Morgannwg i ailgartrefu gydag elusennau 220 o geffylau a ganfuwyd ar y priffyrdd neu'n pori'n anghyfreithlon yn ardaloedd Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Roedd cyfanswm cost y gorlan geffylau, ailgartrefu ac ati yn fwy na

£50,000. Amcangyfrifir bod cost yr effaith economaidd ar wasanaethau i'r Heddlu ac i'r Asiantaethau Partner, heb gynnwys costau'r llysoedd ac asiantaethau erlyn, oddeutu £1,221,000.00 rhwng Tachwedd 2011 a Rhagfyr 2012. O dan yr opsiwn hwn, byddai diddymu'r angen am wariant o'r fath yn fudd uniongyrchol i'r heddlu ac i'r asiantaethau partner.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

- 111 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai Opsiwn 3 (cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a chanllawiau ategol) sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon a gadael ceffylau yn ddiymgeledd yng Nghymru.
- 112 Nid yw'r costau a dynnir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol ac asiantaethau partner eraill yn gynaliadwy, ac mae'n ofynnol gweithredu ynghylch hynny. Byddai'r Bil hwn yn galluogi awdurdodau lleol i leihau, ac mewn rhai achosion, adennill y costau sy'n gysylltiedig ag ymafael mewn ceffylau ar dir heb awdurdod cyfreithlon a'u corlannu.

8. Asesiadau o Effeithiau Penodol

- 113 Yn rhan o'r AERh hwn, gwnaed cyfres o asesiadau o effeithiau'r polisi sy'n gysylltiedig â'r Bil

Yr effaith ar fusnesau bach

- 114 Ni ddisgwylir yr achosir unrhyw gostau ariannol i fusnesau bach o ganlyniad i gyflwyno'r Bil hwn.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

- 115 Ni ddisgwyliwn unrhyw effaith anffafriol ar sefydliadau elusennol ceffylau yn y sector gwirfoddol o ganlyniad i'r Bil hwn. Mewn gwirionedd, gallai arwain at liniaru'r pwysau ar sefydliadau o'r fath oherwydd bydd pwerau gan yr awdurdodau lleol i waredu ceffylau, gan gynnwys eu difa mewn modd dyngarol pan fo angen, yn hytrach na dibynnu ar elusennau sydd eisoes dan bwysau i dderbyn rhagor eto o geffylau.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 116 Bydd darpariaethau'r Bil arfaethedig yn rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru waredu ceffylau saith diwrnod cyfan ar ôl rhoi hysbysiad os nad yw'r perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol neu os yw'r perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ond heb dalu'r costau yr aeth yr awdurdod lleol iddynt wrth ymafael yn y ceffyl hwnnw a'i gorlannu. Yn y Ddeddfau Lleol cyfredol darperir pŵer i waredu drwy ddifa ar ôl cyfnod o 21 diwrnod o leiaf. Mae cwtogi'r cyfnod hwnnw i 7 diwrnod yn wahaniaeth sylweddol rhwng y Bil a'r Deddfau lleol.
- 117 Mae'r gweithredoedd o ymafael mewn ceffylau, eu corlannu, eu gwerthu a'u gwaredu gan gynnwys eu difa gan yr awdurdod lleol, yn gyfystyr ag ymyrryd ag eiddo, rheoli'r defnydd ohono ac amddifadu person ohono; ac o ganlyniad mae erthygl 1 o Brotocol Cyntaf Deddf Hawliau Dynol 1998 yn berthnasol.
- 118 Ni fydd Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ni fydd modd iddo ddod yn gyfraith (gweler adran 108(6)(c) o DLIC 2006) oni fydd yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- 119 Bydd darpariaethau'r Bil hwn o fudd i'r gymuned drwy ddiddymu'r niwsans a achosir gan bori anghyfreithlon. Mae'r nod hwnnw'n un dilys a chyfreithlon, ac yn gorbwyso'r effaith anffafriol ar yr unigolyn a amddifedir o'i eiddo. Un o brif ddiffygion y deddfwriaeth bresennol yw nad oes modd adnabod yn hwylus yr unigolion sy'n creu'r niwsans. Fodd bynnag, pe gellid eu hadnabod, gallai'r personau hynny fod yn atebol mewn cyfraith sifil am dresbasu, ac mewn cyfraith droseddol am (ymysg pethau eraill) fethu â bodloni anghenion lles eu hanifeiliaid.

- 120 Mae ymafael mewn ceffylau, eu corlannu, eu gwerthu, eu gwaredu a'u difa yn gyfystyr ag ymyrryd ag eiddo, rheoli'r defnydd ohono ac amddifadu person ohono, ond mae'r rhain yn weithredoedd a gyfiawnheir drwy wrthbwysio buddiannau'r perchennog yn erbyn y budd i'r cyhoedd o ddiddymu'r niwsans, y perygl a'r difrod a achosir i'r amgylchedd.
- 121 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi ei hystyried yn rhan o'r asesiad sgrinio cydraddoldeb. Ystyrir a yw'r pwerau a ddarperir i awdurdodau lleol o dan ddarpariaethau'r Bil yn cyfateb i benderfyniad ynghylch hawl sifil neu rwymedigaeth o dan Erthygl 6 o'r Confensiwn sy'n ymwneud ag ymyrryd â hawliau eiddo personol a ddiogelir hefyd gan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf. Os defnyddir Erthygl 6, nodir bod rhwymedïau ar gael i bersonau y mae'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol o dan y Bil yn effeithio arnynt, drwy achosion yn y Llys Sirol ac adolygiadau barnwrol. Caiff digonolrwydd y rhwymedïau hynny ei asesu ymhellach. Fodd bynnag, mae adran 7, sy'n darparu y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu proses apelio, wedi'i chynnwys yn y Bil er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn.
- 122 Wrth ystyried a oes unrhyw effaith wahaniaethol o ran rhyw ac ailbennu rhyw, crefydd a chredo neu anghrediniaeth, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, partneriaethau sifil a hil, penderfynasom nad oes tystiolaeth o effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a amddiffynnir.
- 123 Wrth gydnabod y diffyg tystiolaeth, bydd unrhyw adolygiad o'r Bil yn y dyfodol yn cynnwys asesiad o'r defnydd a wneir o'r Bil, er mwyn mesur a ddigwyddodd unrhyw effaith ar grwpiau a amddiffynnir.
- 124 Mae Pennaeth y Tîm Cynhwysiant ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau yn aelod o Fwrdd y Project, a gofynnir am ei chynghor i oleuo'r Cynllun Cyfathrebu, er mwyn sicrhau y cyfathrebu gyda'r grwpiau a amddiffynnir ynglŷn â'r Bil, yn enwedig y grwpiau a fyddai, fel arall, yn llai tebygol o glywed amdano drwy'r cyfryngau arferol.

Yr effaith ar ddatblygu cynaliadwy

- 125 Mae amcanion polisi'r Bil wedi eu hystyried yn nhermau'r effaith bosibl ar ddangosyddion ar gyfer datblygiad cynaliadwy, gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Bil yn hyrwyddo meddwl am y tymor hir, a chymryd camau ataliol i oresgyn y broblem o bori anghyfreithlon, wedi i'r blynyddoedd diwethaf ddangos nad yw'r costau cynyddol i'r awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a'r elusennau lles anifeiliaid yn gynaliadwy bellach.
- 126 Mae paragraff 83 a'r tabl uchod yn dangos beth yw effaith economaidd pori ceffylau yn anghyfreithlon, a allai olygu cost o hyd at £500 y dydd i awdurdodau lleol. Bydd y Bil hwn yn rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol i ddelio â'r mater mewn ffordd sy'n fwy prydlon a chost-effeithiol.

- 127 Disgrifir yr effaith gymdeithasol uniongyrchol ar gymunedau ym mharagraff 102, gan gynnwys lle ceir ceffylau ar dir ysgol neu ysbyty yn ogystal â ffyrdd cyhoeddus. Bu sôn ar y cyfryngau hefyd am geffylau rhydd yn crwydro'r strydoedd ac yn difrodi gerddi ac eiddo domestig. Mae hyn yn ychwanegol at y difrod a achosir ar dir amaethyddol yng nghefn gwlad, lle mae ffermio yn hollbwysig i'r gymuned, ond yn methu ag ymdopi â'r costau a wynebir.
- 128 Datgelir effaith amgylcheddol y pori anghyfreithlon pan adewir ceffylau ar safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (gweler paragraff 102). Gall effaith hyn fod yn andwyol ar dir na ellir ei adfer yn hawdd ar ôl ei bori yn ddi-reolaeth ar yr adegau anghywir. Gall hynny achosi difrod sylweddol a rhwystro defnyddio'r tir at y diben a fwriedid.
- 129 Drwy ymuno mewn ymgynghoriad cyhoeddus (gweler paragraffau 50 i 59) dangoswyd yn eglur mai deddfu, ym marn y mwyafrif, yw'r ffordd orau i geisio goresgyn y niwsans a achosir gan bori anghyfreithlon a gadael ceffylau'n ddiymgeledd.
- 130 Yn ychwanegol at yr enghreifftiau penodol uchod, fel y gwelir yn y Memorandwm Esboniadol drwyddo draw, nid yw'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn gynaliadwy. Mae'r ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn perthynas â phori anghyfreithlon a gadael ceffylau'n ddiymgeledd yn cael sylw priodol yn y Bil hwn, ac yn ffurfio craidd y polisi sy'n sail iddo.

Rhestr gyfeirio prawfesur gwledig

- 131 Mae'r Rhestr Gyfeirio Prawfesur Gwledig yn asesu a yw'r bil yn cael effaith andwyol sylweddol ar y gymuned wledig.

Crynoir canlyniadau'r rhestr gyfeirio prawfesur gwledig yn y tabl canlynol :

	Cwestiwn polisi	Bydd	Na fydd	Sylw
1.	A fydd eich polisi yn effeithio ar argaeledd gwasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill yn yr ardal wledig?	Bydd		Bydd y Bil hwn yn cael effaith gadarnhaol ar fannau agored cyhoeddus mewn cymunedau gwledig, wrth i'r diffyg argaeledd, oherwydd y perygl a achosir gan geffylau sy'n pori'n anghyfreithlon, leihau oherwydd gweithredu cyflymach gan awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r pwerau newydd hyn
2.	A allech chi gyflawni'r polisi y bwriedwch ei gyflawni drwy'r	Bydd		Cyflenwir y polisi hwn drwy'r awdurdodau lleol.

	allfeydd gwasanaeth presennol? E.e. ysgolion, banciau, meddygfeydd			
3.	A fydd rhoi'ch polisi chi ar waith yn achosi cost ychwanegol i ardaloedd gwledig?		Na fydd	
4.	A fydd y polisi'n effeithio ar anghenion teithio neu hwylustod a chost teithio ar gyfer cymunedau gwledig?		Na fydd	
5.	A yw'r polisi yn dibynnu ar gyfleu gwybodaeth i gleientiaid?		Na fydd	
6.	A fydd y polisi'n cael ei gyflawni naill ai drwy'r sector preifat neu drwy bartneriaeth gyhoeddus-preifat?	Bydd		Yr ymatebwyr cyntaf i ddigwyddiadau o bori anghyfreithlon fydd yr awdurdodau lleol, ond mae'n debygol y bydd y symud ceffylau ymaith a chadw ceffylau yn cael eu contractio allan i'r sector preifat.
7.	A yw'r polisi yn dibynnu ar seilwaith i'w gyflawni, a allai olygu y bydd cymunedau gwledig dan anfantis? E.e. TGCh band eang, priffyrdd a chyfleustodau		Na fydd	
8.	A fydd y polisi yn effeithio ar fusnesau gwledig, sef yr hunangyflogedig a microfusnesau yn benodol ac ar y Trydydd Sector gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chyrff gwirfoddol lleol?		Na fydd	
9.	A fydd y polisi yn cael effaith benodol ar ddiwydiannau'r tir, ac felly ar economïau gwledig a'r amgylchedd?	Bydd		Fel yn 1 uchod, effeithir yn gadarnhaol ar economïau gwledig a'r amgylchedd, oherwydd ymdrinnir yn llawer cyflymach â'r niwsans o bori anghyfreithlon a cheffylau gadawedig; bydd y pori a'r ceffylau gadawedig yn bresennol am gyfnodau byrrach ac yn achosi llai o ddifrod i'r tir.
10.	A fydd y polisi'n effeithio ar rai sydd ar gyflogau isel neu mewn cyflogaeth ran-amser neu		Na fydd	

	dymhorol?			
11.	A fydd y polisi'n targedu pobl sydd o dan anfantais ac yn byw mewn ardaloedd gwledig?		Na fydd	
12.	A fydd y polisi'n dibynnu ar sefydliadau lleol i'w gyflawni?	Bydd		Prif ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth hon fydd yr awdurdodau lleol.
13.	A yw'r polisi'n dibynnu ar adeilad neu safle datblygu newydd?		Na fydd	
14.	A fydd y polisi'n effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig, naturiol ac adeiledig?		Na fydd	
15.	A fydd y polisi'n effeithio ar bobl sy'n dymuno cyrraedd a defnyddio cefn gwlad fel lle i hamddena ac i'w fwynhau?	Bydd		Fel yn 1 a 9 uchod, bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar fynediad i fannau agored mewn ardaloedd gwledig, drwy leihau'r cyfnodau pan fo pori anghyfreithlon yn gwneud mannau agored yn anhygyrch.

Yr effaith ar y Gymraeg

132 Nid oes unrhyw risg y gallai'r Bil gael effaith negyddol ar y Gymraeg.

9. Asesu cystadleuaeth

133 Mae dau gam i'r asesiad o'r gystadleuaeth. Y cam cyntaf yw hidl cyflym i ganfod a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadlu.

134 Crynhoir canlyniadau'r hidl cystadleuaeth yn y tabl isod.

Y prawf hidl cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ie neu na
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd a effeithir gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd a effeithir gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd a effeithir gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%?	Na
C4: A fyddai effaith costau'r rheoliad yn fwy i raddau sylweddol ar rai cwmnïau na'i gilydd?	Na
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar	Na

Y prawf hidl cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ie neu na
strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, na fyddai'n rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, na fyddai'n rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C8: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na

135 Yng ngoleuni'r atebion uchod, nid oes angen gweithredu ail gam yr asesiad.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

136 Rhagwelir y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei hadolygu ddwy flynedd ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol neu'n gynharach os bydd angen.

BIL RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) ("y Bil") a dylid eu darllen ar y cyd â'r Bil.
2. Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pan fo adran neu ran o adran yn ei hesbonio ei hun, ni roddir esboniad na sylw pellach yn y Nodiadau Esboniadol.
3. Mae'r pwerau i wneud y Bil i'w cael yn adran 108 a Rhan 1, Pynciau 6 a 12 ac 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil (Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd) wedi gwneud datganiad bod darpariaethau Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Crynodeb a Chamau Gweithredu

4. Mae Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) ("y Bil") yn rhoi effaith i benderfyniad Llywodraeth Cymru i ryddhau Cymru o achosion ar raddfa fawr o bori ceffylau yn anghyfreithlon ac o adael ceffylau yn ddiymgeledd.
5. "Pori anghyfreithlon" yw'r term a ddefnyddir fel arfer i ddisgrifio arferion perchnogion ceffylau anghyfrifol (neu bersonau sydd â chyfrifoldeb am geffylau), o adael i'w ceffylau, yn fwriadol neu drwy esgeulustod, bori ar dir pan nad ydynt wedi cael caniatâd y perchennog.
6. Ac eithrio tair Deddf leol, mae camau cyfreithiol ar hyn o bryd yn dibynnu ar ddod o hyd i berchnogion y ceffylau ac, oherwydd nad oes modd adnabod y rhan fwyaf o'r ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon neu sydd wedi'u gadael yn ddiymgeledd yn unol â gofynion cyfreithiol, ni ellir eu holrhain yn hawdd yn ôl at eu perchennogion sy'n golygu bod y deddfwriaeth bresennol yn aneffeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r tair Deddf leol sy'n rhoi pwerau penodol i awdurdodau lleol weithredu heb orfod dod o hyd i berchnogion ond yn gymwys i ardaloedd awdurdodau lleol Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg a Chaerdydd. Nid oes darpariaethau tebyg ar gyfer gweddill Cymru.
7. Mae'r Bil yn rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol weithredu mewn ffordd gyson ledled Cymru i ddelio ag effaith pori anghyfreithlon a cheffylau a gaiff eu gadael yn ddiymgeledd. Mae'r arferion hyn yn creu niwsans o ran diogelwch cyhoeddus, yn achosi niwed economaidd ac amgylcheddol ac yn gosod baich ariannol ar unigolion a threthdalwyr.

8. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru ymafael mewn ceffylau sydd ar dir heb ganiatâd neu sydd mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, a'u corlannu ac mae hefyd yn rhoi pwerau i'w galluogi i werthu'r ceffylau neu'u gwaredu drwy ddulliau eraill, gan gynnwys eu difa.

Sylwebaeth ar yr adrannau

Adran 1 – Trosolwg

9. Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn y mae'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol ei wneud pan fo ceffylau mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon neu pan fyddant ar dir arall heb ganiatâd y meddiannydd.

Adran 2 - Pŵer awdurdod lleol i ymafael mewn ceffylau

10. Gall awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl sydd ar y briffordd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall yn ardal yr awdurdod lleol neu ar dir arall yn ei ardal, a'i gorlannu heb ganiatâd y meddiannydd os yw'r meddiannydd yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol ymafael yn y ceffyl hwnnw a'i gorlannu. Rhaid bod gan yr awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod y ceffyl yno heb awdurdod cyfreithlon cyn y gall ddefnyddio'r pwerau hyn.

Adran 3 - Hysbysiadau ynghylch ymafael etc

11. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol arddangos hysbysiad ysgrifenedig o fewn 24 awr i ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, yn y fan lle ymafaelwyd yn y ceffyl, neu gerllaw, gan nodi'r dyddiad a'r amser yr ymafaelwyd yn y ceffyl a sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol. Rhaid iddo hefyd, o fewn 24 i ymafael mewn ceffyl, roi hysbysiadau ysgrifenedig i unrhyw berson yr ymddengys mai ef yw'r perchennog neu ei fod yn gweithredu ar ran perchennog y ceffyl ac i'r heddlu.

12. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ddarganfod pwy yw perchennog y ceffyl cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl ymafael yn y ceffyl. Os bydd yr awdurdod lleol yn darganfod, o fewn 7 diwrnod i ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, bod y ceffyl yn eiddo i berson nad yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o dan y Bil, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw o fewn 24 awr.

13. Rhaid rhoi'r dyddiad ar yr hysbysiadau a rhaid iddynt gynnwys disgrifiad o'r ceffyl, a'r dyddiad, yr amser a'r safle lle ymafaelwyd yn y ceffyl ynghyd â manylion cyswllt yr awdurdod lleol.

14. Rhaid i hysbysiad a roddir i berson y credir ei fod yn berchen ar y ceffyl, neu'n gweithredu ar ran y perchennog, ddatgan hefyd pam bod yr awdurdod lleol yn credu bod y person hwnnw naill ai'n berchen ar y ceffyl neu'n gweithredu ar ran y perchennog. Rhaid i'r hysbysiad amlinellu effaith gweithredu adran 5 (gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw) gan gynnwys y dyddiad y bydd y pwerau o dan adran 5 (2) i werthu, neu waredu'r ceffyl mewn modd arall (gan gynnwys trefnu i'w ddifa), ar gael. Rhaid i hysbysiad a roddir i swyddog yr heddlu ddatgan hefyd pwy arall y rhoddwyd hysbysiad iddo.

Adran 4 - Costau ymafael etc.

15. Mae'r perchennog yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau a ysgwyddir yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gadw ac wrth ei fwydo a'i gynnal tra bo'n cael ei gadw. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddychwelyd y ceffyl nes bod y costau hyn wedi'u talu. Mae'r gyfraith gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i ofalu am geffyl tra'i fod yng ngofal awdurdod lleol.

Adran 5 - Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw

16. Os nad oes unrhyw un, ar ôl y cyfnod o 7 niwrnod yn dechrau ar y dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan adran 3(3) neu (4), wedi hysbysu'r awdurdod lleol mai ef yw perchennog y ceffyl neu ei fod yn gweithredu ar ran perchennog y ceffyl, neu os yw'r perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ond heb gydymffurfio ag adran 4(1), caiff yr awdurdod lleol werthu'r ceffyl neu ei waredu fel arall, gan gynnwys drwy drefnu i'w ddifa. Caiff y ceffyl ei ddifa mewn ffordd mor ddyngarol â phosibl.

17. Caiff yr awdurdod lleol adennill unrhyw gostau a ysgwyddir ganddo mewn cysylltiad ag unrhyw drefniadau ar gyfer gwaredu neu ddifa'r ceffyl o dan yr adran hon. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth, pan nad oes unrhyw enillion yn codi o waredu'r ceffyl, neu pan fo swm y costau o waredu neu ddifa'r ceffyl yn fwy na swm yr enillion hynny, y caiff yr awdurdod lleol geisio cael y cyfryw gostau gan y perchennog. Mae'r perchennog yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau a ysgwyddir mewn cysylltiad â gwaredu'r ceffyl neu'r swm hwnnw sydd dros ben.

18. Mae'r isadran hon hefyd yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i'r awdurdod lleol dalu i berchennog y ceffyl unrhyw enillion sy'n codi o waredu'r ceffyl pan fo'r enillion yn fwy na swm y costau a ysgwyddwyd gan yr awdurdod lleol ond os yw awdurdod lleol wedi gwneud taliad yn flaenorol i berson y mae'n credu'n rhesymol mai hwnnw yw'r perchennog, nid yw'n ofynnol iddo ad-dalu unrhyw berson arall.

Adran 6 - Cofnod o'r ceffylau yr ymdriniwyd â hwy

19. O dan yr adran hon, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gadw cofrestr o'r holl geffylau y mae wedi ymafael ynddynt o dan adran 2 o'r Ddeddf a bod yn rhaid i'r gofrestr honno gynnwys disgrifiad byr o'r ceffyl, datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd yn y ceffyl a phryd y cafodd ei gadw a manylion y camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw ei berchennog ac, os yw'r ceffyl wedi ei waredu, manylion y modd y gwareddwyd y ceffyl o dan adran 5. Rhaid i'r gofrestr fod yn agored i'r cyhoedd ei gweld (p'un ai yn bersonol neu ar y rhyngwyd) ar bob adeg resymol.

Adran 7 - Apeliadau

20. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau drwy offeryn statudol sy'n rhoi hawl i apelio yn erbyn unrhyw fater o dan y Bil. Mae'r adran hon yn amlinellu'r darpariaethau y gellir eu gwneud drwy unrhyw gyfryw reoliadau ond nid yw'n cyfyngu ar unrhyw ddarpariaethau eraill y gellir eu gwneud. Mae isadran (2) yn cynnwys darpariaethau a all: nodi ar ba sail y gellir gwneud apêl,

darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas â phenodi personau i wrando ar apeliadau, pennu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apeliadau a phenderfynu arnynt. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gweithdrefnau apelio, codi ffioedd am wneud apeliadau, darpariaeth ynghylch dyfarnu costau mewn apeliadau a darpariaeth i atal camau penodol rhag cael eu cymryd tra bod apeliadau'n cael eu penderfynu.

Adran 8 - Diddymiadau canlyniadol

21. Mae'r adran hon yn nodi'r darpariaethau perthnasol yn y tair Deddf leol arall a fydd yn ddi-rym gan na fydd eu hangen ar ôl i'r Bil hwn ddod i rym.

Mae'r diddymiadau hyn fel a ganlyn:

- (a) adran 29 o Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 (p.xv);
- (b) yn adran 15(8) o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 (p.vii), y geiriau "horses (including ponies, mules, jennets),";
- (c) yn adran 35(7) o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 (p.viii), y gair "horses".

